# Neuadd Les Felindre a’r caeau cyfagos – adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig

## Astudiaeth ddichonolrwydd


Cyswllt

*The means:* newid lleoedd er gwell

***The means*, Swyddfa Cymru**

**Uned 2, 21-25 West End,**

**Llanelli, Sir Gâr / Carmarthenshire SA15 3DN**

**Ffôn / Phone: +44 (0)1554 780170**

***The means*, Swyddfa Llundain**

**28 Marshalsea Road,**

**Llundain SE1 1HF**

**Ffôn / Phone: +44 (0)20 7403 4135**

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 5
1. Cyflwyniad ........ 9
    1.1. Briff yr astudiaeth a dull ehangach ........ 9
    1.2. Felindre – crynodeb o'r prosiect ........ 10
2. Y cynnig cysyniadol ac adolygiad o'r safle ........ 11
    2.1. Cynnig ........ 11
    2.2. Adolygu'r safle – nodweddion, arweddau ac asedau ........ 11
    2.3. Polisïau datblygu lleol ........ 15
3. Cyd-destun lleol ........ 18
    3.1. Cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau Sylfaen ........ 18
    3.2. Hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth ........ 24
4. Ymchwil gynradd ac ymgynghoriad ........ 25
    4.1. Crynodeb o'r camau ymgysylltu ........ 25
    4.2. Arolwg cymunedol a sesiwn picio i mewn ........ 30
    4.3. Arolwg parc / maes chwarae i blant ........ 37
5. Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau ........ 39
    5.1. Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT ........ 39
    5.2. 'Cyfle'r 'Farchnad' ........ 41
    5.3. Egwyddorion datblygu ........ 42
    5.4. Opsiynau datblygu ........ 42
    5.5. Gwerthuso'r opsiynau ........ 46
6. Cyflenwi, cyllid ac ariannu ........ 50
    6.1. Dull a llywodraethiant cyflenwi ........ 50
    6.2. Pennu gofynion ariannol ........ 50
    6.3. Datblygu strategaeth ariannol ........ 52
7. Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol ........ 55
    7.1. Casgliadau cryno ........ 55
    7.2. Argymhellion allweddol ........ 58
Atodiad 1: Taflen hysbysu'r sesiwn picio i mewn ........ 59

# Tabl Ffigurau

Ffigwr 1: Methodoleg gyffredin ........ 9
Ffigwr 2: Neuadd Les Felindre a’r caeau cyfagos – mapio’r ardal / delweddu ........ 13
Ffigwr 3: Neuadd Les Felindre a’r caeau cyfagos – ffotograffiaeth / delweddu ........ 14
Ffigwr 4: Map cynigion LDP Abertawe 2010-2025 (Felindre) ........ 16
Ffigwr 5: Map cyfyngiadau a phroblemau (Felindre) ........ 16
Ffigwr 6: Ward ac anheddau allweddol Mawr ........ 18
Ffigwr 7: Ffin ward Mawr cyn-Mai 2022 ........ 19
Ffigwr 8: Ffin ward wedi-Mai 2022 – Felindre o fewn ward Llangyfelach ........ 19
Ffigwr 9: Poblogaeth ardal – Mawr ac Abertawe ........ 20
Ffigwr 10: Gweithgaredd economaidd (pobl 16-74 oed) – Mawr ac Abertawe ........ 21
Ffigwr 11: Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC) – Mawr ac Abertawe ........ 21
Ffigwr 12: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – ward Mawr / Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ........ 23
Ffigwr 13: Sesiwn picio i mewn yn Neuadd Les Felindre ........ 30
Ffigwr 14: Agosrwydd at yr ardal astudio ........ 31
Ffigwr 15: Ystod oedran ymatebwyr ........ 31
Ffigwr 16: Presenoldeb rheolaidd ........ 32
Ffigwr 17: Hyd ymweliadau ........ 32
Ffigwr 18: Hyd ymweliadau ac eithrio ymatebion n/a ........ 33
Ffigwr 19: Ysgogiad tebygol dros ymweld yn y dyfodol ........ 34
Ffigwr 20: Beth hoffai ymatebwyr ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio ........ 35
Ffigwr 21: Cefnogaeth i gynigion ........ 36
Ffigwr 22: Annog mwy o ymweliadau ........ 37
Ffigwr 23: Arolwg parc / maes chwarae plant ........ 38
Ffigwr 24: Dau ddarlun o offer maes chwarae a gynhyrchwyd ar gyfer Neuadd Les Felindre a’r caeau ........ 38
Ffigwr 25: Cyfleoedd a heriau’r safle – dadansoddiad SWOT ........ 40
Ffigwr 26: Dadansoddi’r farchnad – grwpiau defnyddwyr allweddol ........ 41
Ffigwr 27: Egwyddorion datblygu ........ 42
Ffigwr 28: Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae ........ 43
Ffigwr 29: Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre ........ 44
Ffigwr 30: Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i’r farchnad ymwelwyr ........ 45
Ffigwr 31: Meini prawf gwerthuso opsiynau ........ 47
Ffigwr 32: Sgorio a chymharu gwerthuso opsiynau ........ 49

# Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre'n archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau a'r defnydd o le allanol o amgylch Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.

Dan arweiniad The means, nod yr astudiaeth ddichonoldeb oedd amlygu syniadau a'u mireinio, ac ystyried sut y gellir eu datblygu mewn cynnig cyflenwol a chydlynol.

**Mae Pennod 1 yn disgrifio briff yr astudiaeth, y dull gweithredu ehangach a chrynodeb o'r prosiect.** O ystyried man cychwyn yr astudiaeth, canolbwyntiodd y nodau'n fwy ar gynnal dadansoddiad rhagarweiniol a ffurf achos busnes i nodi'r bylchau / galw canfyddedig, atebion / dewisiadau, opsiwn(opsiynau) a ffefrir a dull gweithredu.

**Mae Pennod 2** yn amlinellu **cysyniad y cynnig a'r adolygiad o'r safle, gan grynhoi'r nodweddion lle, yr arweddau a'r asedau a'r polisïau datblygu lleol.**

Pentref gwledig a leolir tua gogledd Sir Abertawe yw Felindre, tua 7 milltir (11km) i'r gogledd o ganol y ddinas.

Lleolir Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos ynghanol Felindre, wrth ochr y B4489 sy'n rhedeg i gyfeiriad gogledd/de o'r A48 a'r M4 (C46) i Felindre ble maen rhannu'n ffyrdd tua'r gogledd i Garnswllt a gorllewin i Bontarddulais. Mae'r safle tua 1.5 milltir (<1 milltir fel yr hed y frân) i'r gorllewin o Gronfa Ddŵr Lliw Isaf. Mae'r safle'n cynnwys Neuadd Les Felindre, MUGA, caeau chwarae, llwybr Ffordd Sally a choedwig a chae bach / tir prysgwydd.

Mae'r ardal astudiaeth yn eiddo i Gyngor Cymuned Mawr, gan gynnwys llwybr a choetir Ffordd Sally (a roddwyd i'r gymuned gan ffermwr lleol er cof am ei ferch).

Ystyrir bod Felindre'n Bentref Allweddol (un o blith 18 yn y sir) ac mae'n ddarostyngedig i bolisïau datblygu penodol a ddisgrifir yn 'CV1: Pentrefi Allweddol' o fewn Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025. Ystyrir bod Pentrefi Allweddol yn addas ar gyfer cynnwys datblygiadau addas ar raddfa fechan, gan gynnwys cartrefi newydd, cyfleusterau cymunedol a mentrau cynaliadwy.

Heblaw am Ffordd Sallu, mae'r ardal astudiaeth a'r cynigion o fewn ffin y pentref. Ni amlygwyd unrhyw gynigion penodol i'r safle o fewn ffin y pentref.

Mae rhan o'r ardal astudio'n Safle o Bwysigrwydd Natur Cadwraeth – mae'n dilyn Afon Lliw ac yn cynnwys llwybr Ffordd Sally a'r goedwig. Mae rhan o'r llwybr a'r goedwig, a rhan o'r caeau chwarae o fewn i Barthau Llifogydd 2 a 3 CNC. Mae'r ardal astsudiaeth yn agos at ddarn o Goedwig Hynafol.

Mewn ardaloedd gwledig, cefnogir cynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a hamdden cynaliadwy ble maent yn ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol y Sir ac atgyfnerthu cymunedau gwledig bywiog (TR 1: Twristiaeth, Adloniant a Datblygiad Hamdden).

Trafodir y **Cyd-destun lleol** ym **Mhennod 3**, gan amlygu'r cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau sylfaenol ynghyd â hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth.

Lleolir Felindre ym Mawr, sef ward leiaf poblog y sir, ar y cyd ag un arall. Mae Mawr yn cynnwys yn bennaf dir glas ucheldirol agored yn bennaf, heblaw am bentrefi Felindre, Craig Cefn Parc, Garnswllt a phentrefi llai Rhydypandy, Salem a Chwmcerdinen. Mae'r gweddill yn ffermydd gwasgaredig yn bennaf. Nid yw poblogaeth yr ardal wedi gweld twf yn ystod 2015-2020. Fodd bynnag, mae cyfraddau genedigaethau a marwolaethau ers hynny (ONS, 2020) yn awgrymu y bu rhywfaint o dwf yn ddiweddar. Yn anecdotaidd, yn Felindre, mae'r cynnydd mewn teuluoedd ifanc a symudodd i'r ardal ers y pandemig wedi arwain at dwf yn y boblogaeth leol.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn amlygu dau barth sy'n peri gofid ar gyfer Mawr. Rhestrir parth 'Mynediad at Wasanaethau' yn y safle ail fwyaf difreintiedig yn Abertawe a rhif 128 ledled Cymru – mae hyn o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yn y wlad, ac mae'n adelwyrchu lleoliad gwledcig yr ardal a'i phellter o amwynderau. Mae'r parth 'Mynediad at wasanaethau' yn nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwydydd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein. Mae'i 'Amgylchedd Ffisegol' o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yn y wlad ac mae yn safle 36 mwyaf difreintiedig yn Abertawe, ac 80 yng Nghymru. Mae'r parth 'Amgylchedd Ffisegol' yn mesur ffactorau yn yr ardal leol a allai effeithio ar lesiant neu ansawdd bywyd y rheiny sy'n byw mewn ardal.

Un peth sy'n bwysig i Felindre o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru (2023) a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu manteision twristiaeth a lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig.
Mae **Pennod 4** yn manylu ar yr **ymchwil sylfaenol ar ymgynghori** a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Rhoddwyd sawl cam ymgysylltu ar waith i sicrhau bod cynigion yn ymateb i anghenion trigolion ac ymwelwyr a bod y gymuned yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu helpu i roi ffurf arnynt.

Yn gyntaf, amlygwyd syniadau oedd yn codi, dan gyfeiriad y cyngor a'r pwyllgor, i'w datblygu ymhellach. Y bwriad oedd ystyried sut y gellid datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Neuadd Les Felindre – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Caeau chwarae – cynnig ychwanegol
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen
- Llwybr a choedwig Ffordd Sally – ailsefydlu a gweithgareddau ysgol y goedwig
- Ardal chwarae i blant – ychwanegiad newydd
- Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu

Yn ail, cynhyrchwyd arolwg cymunedol i geisio barn ar syniadau'r prosiect a nodi unrhyw rai eraill. Yn drydydd, cynhyrchwyd taflenni copi caled a'u dosbarthu o gwmpas Felindre gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre i hybu'r arolwg a sesiwn picio i mewn. Yn bedwerydd, cynhaliwyd arolwg i blant ym mis Rhagfyr 2022 i amlygu pa fathau o offer yr hoffai plant eu cael mewn parc / maes chwarae.

Yn ystod y trafodaethau hyn a law yn llaw â sylwadau a dderbyniwyd drwy'r arolwg, mynegodd y gymuned diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd ei angen yn yr ardal a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn ei chwarae.

Disgrifir **Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau ym Mhennod 5**. Dehonglwyd materion meintiol ac ansoddol, heriau a chyfleoedd sy'n codi o'r proffil cymdeithasol-economaidd, ymchwil i'r llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid y prosiect a phobl leol i greu dadansoddiad SWOT. Mae hyn wedi addysgu cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a'r gwaith o gymharu dewisiadau'r datblygiad gan alluogi cymharu rhesymwaith, nodau gweithredu / darparu a deilliannau er mwyn gwneud yn fawr o gryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a llesteirio effaith bygythiadau.

Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle'n dangos bod cefnogaeth gref ar gyfer datblygu'r adnodd cymunedol i ateb yn llawnach angen 'cymunedol', mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, a gwella cynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally.

Cymharwyd tair lefel o opsiynau ymyrraeth / datblygu o ran maint a ffurf:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre
- Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre.

Yr opsiwn a gafodd y sgôr uchaf o gryn dipyn yw Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre, gyda sgôr a bwysolwyd o 79.50. Mae'r opsiwn hwn yn diwallu'n llawn angen 'cymunedol' fel y'i amlygwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yr astudiaeth hon, mae'n gwireddu dyheadau'r gymuned a demograffeg sy'n newid, mae'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc, yn enwedig faes chwarae i blant, mae'ng wella cynnal a chaddw llwybr, coewdwig a chynefinoedd Ffordd Sally, i greu pwyntiau diddordeb ac i ddenu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth, a gall cynigion wella safiad isel yr ardal o ran 'Mynediad i wasanaethau' (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

Er bod pob cynnig yn gallu sefyll ar ei ben ei hun a bod iddo fanteision ar gyfer demograffeg benodol y gymuned, gwelir yr effaith fwyaf trwy wireddu pecyn cyflenwol o gynigion sy'n defnyddio adnoddau'r gymuned (cyfleusterau a gwasanaethau) yn llawn ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.

**Mae Pennod 6 yn amlinellu cyflenwi, cyllid ac ariannu.** Cyngor Cymuned Mawr fyddai'r arweinydd naturiol ar gyfer y camau datblygu gan dynnu ar gymorth ac arbenigedd partneriaid yn ôl y galw. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyllido refeniw parhaus ar gyfer Swyddog Grantiau a Chydlynydd Prosiect Bioamrywiaeth. Mae'r cyngor hefyd yn elwa o fewnbwn sylweddol o ran amser ac adnoddau ar sail wirfoddol gan y gymuned leol ar ffurf cynghorwyr lleol a Phwyllgor Neuadd Les Felindre. Mae ganddo record lwyddiannnus o sicrhau cyllid, cyflenwi prosiectau a gwasanaethau, ac ef sydd berchen yr ardal astudio / cyfelusterau ac sy'n gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau presennol.

Y ffactor risg unigol mwyaf o ran gallu cyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol. Bydd angen cytuno ar Strategaeth Ariannu i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Mae sawl ffynhonnell ariannu wedi'u hamlygu ar gyfer ymchwiliad pellach:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) – Cyngor Abertawe yw'r awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru
- Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)
- Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe
- Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
- Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

**Disgrifir Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol ym Mhennod 7.** Drwy adeiladu ar y dadansoddiad ac adolygu'r egwyddorion datblygu a'r dewisiadau datblygu, daethpwyd at bedwar argymhelliad. **Argymhelliad 1** – Dylid mynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrir: **'Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre'.**

**Argymhelliad 2** – Dylid datblygu cynigion a'u cyflwyno fel **pecyn cydlynol a chyflenwol sy'n gwneud defnydd llawn o'r ystod o gyfleusterau ac adnoddau ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.**

**Argymhelliad 3** – **Cyngor Cymuned Mawr ddylai fod yn arweinwyr ar gyfer y cyfnodau datblygu** gan dynnu ar gefnogaeth ac arbenigedd partneriaid yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 4** – Dylid cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Dylid ymchwilio ymhellach i sawl ffynhonnell ariannu gyda golwg ar gyflwyno ceisiadau am yr adnoddau cyfalaf angenrheidiol.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Briff yr astudiaeth a dull ehangach

Mae ymestyn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r pecyn ariannu yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a'r heriau sy'n wynebu wardiau gwledig gogleddol y Ddinas a'r Sir, yn enwedig yn Llangyfelach, Mawr, Pontarddulais a Phenclawdd.

Dros y pedwar mis diwethaf, mae The means, mewn partneriaeth â Planning Solutions Consulting, wedi bod yn cynnal cyfres o astudiaethau dichonoldeb ar ran Partneriaeth Ddatblygu Abertawe Wledig i gefnogi adfywio cymunedol cynaliadwy yng ngogledd Abertawe wledig. Cymhwyswyd methodoleg gyffredin ar draws astudiaethau dichonoldeb ar gyfer pob maes, er bod y canlyniadau gofynnol yn wahanol, a fydd yn hwyluso cael llwyfan i wneud cais am gyllid. Crynhoir hyn yn y siart isod.




**Ffigwr 1: Methodoleg gyffredin**

O ran astudiaethau dichonolrwydd:

- Dechreuodd y comisiwn gyda gweithdy cynnull i drafod y cefndir a'r materion allweddol, casglu gwybodaeth berthnasol, cadarnhau manylion cyswllt rhanddeiliaid / partneriaid allweddol a mireinio a chwblhau'r rhaglen waith lawn.
- Rhoddwyd Cynllun Ymgysylltu manwl ar waith ar gyfer pob un o'r pedair ardal i sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol a rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y gwaith dichonoldeb.
- Seilir yr astudiaethau dichonoldeb ar dystiolaeth. Mae pob astudiaeth wedi cynnwys dadansoddiad o angen, cyfleoedd a thargedu ar ffurf dadansoddiad a phroffil gyda dadansoddiad econometrig priodol ac asesiad o alw'r farchnad ar gyfer pob ardal.
- Bu'r allbwn yn ystod o opsiynau o gylch y cyfleoedd datblygu ac argymhellion ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Roedd pob maes astudiaeth ar wahanol gamau o ran cynnydd – roedd gan rai ffocws penodol eisoes wedi'i gytuno, roedd rhai ar y ffordd at benderfynu ar y dull a ffefrir ac eraill â chwmpas ehangach i ddechrau ac angen cytuno ar faes diddordeb penodol. Y bwriad oedd i'r astudiaethau mwy datblygedig brofi'r rhesymeg, cynhyrchu sawl opsiwn a chytuno ar yr opsiwn a ffefrir. I eraill, y bwriad oedd nodi angen, maes diffiniedig a chwmpasu hyn gyda naratif sy'n arwain at brosiectau a nodwyd.

Un o nodweddion craidd yr astudiaethau fu alinio â nodau ac amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a gweledigaeth Un Blaned.

# 1.2. Felindre – crynodeb o’r prosiect

Ar adeg comisiynu, roedd gan Felindre gwmpas ehangach. Bwriad y cyfnod cychwynnol o waith oedd nodi gyda Chyngor Cymuned Mawr yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr astudiaeth ddichonoldeb – beth fyddai o fudd i’r ardal ac yn ennyn diddordeb a chefnogaeth ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol. Cwmpas yr astudiaeth wedyn oedd cael cymeradwyaeth Cyngor Abertawe, fel yr awdurdod cytundebu, i sicrhau bod nodau ac amcanion cyllid y comisiwn yn cael eu dilyn. O ystyried man cychwyn yr astudiaeth, mae ei **nodau wedi canolbwyntio’n fwy ar gynnal dadansoddiad rhagarweiniol a ffurf achos busnes i nodi’r bylchau / galw canfyddedig, atebion / dewisiadau, opsiwn(opsiynau) a ffefrir a dull gweithredu.**

Drwy ymgynghori â Chyngor Cymuned Mawr, cytunwyd ar Felindre fel maes yr astudiaeth – yn benodol y Neuadd Les, ei thir a’r caeau cyfagos. Byddai gwasanaethau a chyfleusterau’n cael eu hanelu’n bennaf at y gymuned leol, gyda rhyw gymaint o gyfle i gynnwys ardaloedd cyfagos a denu ymwelwyr drwyg frywng i caeau chwarae a’r llwybrau gerllaw. Partner allweddol wrth addysgu’r astudiaeth a chyflawni uchelgais yr ardal yw Pwyllgr Neuadd Les Felindre. Daethant yn rhan annatod o nodi a llunio cynigion.

# 2. Y cynnig cysyniadol ac adolygiad o'r safle

## 2.1. Cynnig

Mae Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre'n yn chwilio am gyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau o gwmpas Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.

Dan arweiniad The means / Y modd mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi ceisio nodi a mireinio syniadau sy'n dod i'r amlwg ac ystyried sut y gellir datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Ymysg y syniadau sy'n dod i'r amlwg mae:

- Neuadd Les Felindre – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Caeau chwarae – cynnig ychwanegol
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen
- Llwybr a choedwig Ffordd Sally – ailsefydlu a gweithgareddau ysgol y goedwig
- Ardal chwarae i blant – ychwanegiad newydd
- Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu

## 2.2. Adolygu'r safle – nodweddion, arweddau ac asedau

Pentref gwledig a leolir tua gogledd Sir Abertawe yw Felindre, tua 7 milltir (11km) i'r gogledd o ganol y ddinas. Mae Felindre yn ward Mawr ac mae'n rhan o Etholaeth ehangach Cynulliad Cymru a Senedd y DU Gŵyr. Mae'n un o 39 ardal gymunedol yn Abertawe ac un o 24 o gynghorau gweithredol – Cyngor Cymuned Mawr.
Mae ynddo dair siop a thŷ tafarn: y Shepherds Country Inn. Mae Cronfeydd Dŵr Lliw Isaf gerllaw yn lleoliad poblogaidd ar gyfer cerdded a physgota. Caeodd ysgol gynradd Gymraeg y pentref yn 2019, ac fe'i ailddatblygwyd yn gyfleuster preifat ar gyfer plant ag anawsterau dysgu.

Yn 2006 Felindre oedd cartref yr Eisteddfod Genedlaethol ar diroedd yr hen waith dur. Ar ei anterth yn y 1970au, cyflogai'r gwaith yn Felindre ryw 2,500 o bobl ac roedd yn cynhyrchu 490,000 tunnell fetrig o alcam bob blwyddyn. Yn dilyn adolygiad o weithfeydd alcam yn adran De Cymru a chau sawl gwaith arall, dirywiwyd gwaith Felindre a'i gau yn 1989.

Lleolir Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos ynghanol Felindre, wrth ochr y B4489 sy'n rhedeg i gyfeiriad gogledd/de o'r A48 a'r M4 (C46) i Felindre ble maen rhannu'n ffyrdd tua'r gogledd i Garnswllt a gorllewin i Bontarddulais. Mae'r safle tua 1.5 milltir (<1 milltir fel yr hed y frân) i'r gorllewin o Gronfa Ddŵr Lliw Isaf. Mae'r safle'n cynnwys Neuadd Les Felindre, MUGA, caeau chwarae, llwybr Ffordd Sally a choedwig a chae bach / tir prysgwydd.

Mae'r safle ar ochr bryn. Mae'r dirwedd yn disgyn o'r de tua'r gogledd gyda'r cae / tir prysgwydd ar y lefel uchaf. Codir y Neuadd uwchlaw'r MUGA ac mae'n arwain ar hyd llwybr byr i'r caeau chwarae a lefelwyd, ac a ddefnyddiwyd cyn hyn ar gyfer chwarae gemau pêl-droed.

Mae dau faes parcio ag arwyneb ar y safle gyda llwybrau wedi'u harwynebu'n eu hymuno â'r cyfleusterau. Mae un wrth ochr y Neuadd, gan amgylchynu'i blaen (i'r gogledd) a'i hochr (o'r gorllewin) gan ffinio â'r

cae / tir prysgwydd uwch wrth ochr y brif ffordd. Mae'r ail yn wynebu'r caeau chwarae(i'r gorllewin ohonynt) ac mae llwybr yn arwain ato sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r ardal gemau aml-ddefnydd (i'r gogledd ohono). Mae'r ail faes parcio'n profi achosion prin o ymddygiad anghymdeithasol ambell noson. Mae'r ardal astudio'n eiddo i Gyngor Cymuned Mawr gan gynnwys llwybr a choedwig Ffordd Sally (a roddwyd i'r gymuned gan ffermwr lleol er cof am ei ferch).

**Neuadd Les Felindre**

Ôl troed yr adeilad yn fras yw 360m$^2$ (40m o hyd wrth 9m o led) can mae'n cynnwys mynedfa / cyntedd, lolfa, cegin, prif neuadd â llwyfan, dau le llai / lle swyddfa. ystafell gyfarfod (a arferai fod yn ystafell clwb) ac ystafelloedd newid / cawod.

Mae modd llogi'r Neuadd i gynnal partïon, cyfarfodydd a digwyddiadau, ac mae'n cynnal sesiynau / digwyddiadau wythnosol:

- Llun: Pilates 6.00pm-7.00pm
- Mawrth: Henoed 2.00pm-4.30pm Bob pythefnos
- Mercher: Clwb Gwnïo 6.00pm -8.00pm
- Iau: Menter Llecyn Cynnes 12.00-2.00pm, Bingo 7.00pm-9.30pm
- Gwener: Clwb Chwarae / Ieuenctid 5.30pm-7.00pm

**Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd**

Tua gogledd orllewin y Neuadd, gosodwyd y MUGA ar dir caled gyda marciau a chyfleusterau sy'n ei wneud yn addas ar gyfer pêl-droed, pêl-fasged, pêl-rwyd a hoci. Amgylchynnir y maes â ffens ac mae ganddo lifoleuadau.

**Caeau chwarae**


Mae'r caeau dan borfa ac yn cael eu cadw'n dda. Cawsant eu gwastadáu ac maen nhw'n addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon fel pêl-droed.

**Llwybr a Choedwig Ffordd Sally**

Mae'r llwybr yn arwain o'r maes parcio wrth ochr y caeau chwarae, ar draws afon Lliw (a ddynodwyd fel Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur) drwy goedwig at gyn-ysgol gynradd Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (sydd bellach yn gyfleuster preifat ar gyfer anawsterau dysgu). Mae'r llwybr wedi gordyfu, ac ni ellir cerdded ar ei hyd.

**Cae / tir prysgwydd**

Tir nad yw'n cael ei ddefnyddio i dde orllewin y Neuadd ac wrth ochr y brif ffordd. Mae'n edrych dros weddill y safle, ac mae'r tir serth wedi'i amgylchynu â ffens bren a choed.




**Ffigwr 2: Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos – mapio'r ardal / delweddu**



Neuadd Les Felindre (o'r brif ffordd)



Neuadd Les Felindre (o Ffordd Sally)



Cae / tir prysgwydd (o'r Neuadd)



MUGA (o'r brif ffordd)



MUGA



Cae / tir prysgwydd



Caeau chwarae



Ffordd Sally (mynedfa ac arwydd)



Ffordd Sally



Neuadd Les Felindre (mynedfa)



Cegin (canol yr adeilad)



Lolfa (hawl adeilad)



Ystafelloedd newid / cawod
(ar y chwith eithaf)




Ystafell sbâr
(chwith yr adeilad)



Prif neuadd
(canol / chwith yr adeilad)

**Ffigwr 3: Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos – ffotograffiaeth / delweddu**

## 2.3. Polisïau datblygu lleol


Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 (a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2019) yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Cyngor Abertawe. Ynghyd â'r cynllun cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040) fe'i defnyddir fel y brif ystyriaeth berthnasol er mwyn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a chynigion datblygu. Mae'r LDP yn cynnwys datganiad ysgrifenedig a mapiau cynigion sy'n nodi'r ystod lawn o bolisïau a chynigion cynllun i gyflawni "dull cadarnhaol o reoli a hyrwyddo twf, ac i ddarparu'r isadeiledd ategol sydd ei angen i ategu'r newid trawsnewidiol y rhagwelir y bydd Abertawe'n ei brofi fel y ddinas wrth galon Rhanbarth Bae Abertawe".

**Felindre – Pentref Allweddol**

Dosberthir Felindre fel Pentref Allweddol (un o 18 yn y sir) ac mae'n destun polisïau datblygu penodol a ddisgrifir yn 'CV 1: Key Villages'. Ystyrir bod Pentrefi Allweddol yn addas ar gyfer datblygiadau priodol ar raddfa fach, gan gynnwys cartrefi newydd, cyfleusterau cymunedol a mentrau cynaliadwy. Rhaid i ddatblygiad mewn Pentrefi Allweddol sicrhau bod y cynnig:


- Wedi'i leoli o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad, fel y dangosir ar y Map Cynigion;
- Yn integreiddio'n sympathetig gyda'r amgylchedd naturiol ac adeiledig o gwmpas, gan gymryd i ystyriaeth gymeriad gwledig unigryw'r pentref ac ansawdd y dirwedd a'r morlun o'i amgylch;
- Gwarchod golygfeydd a fistâu gwledig pwysig;
- Ddim yn peri i faestref ddatblygu;
- Ddim yn arwain at golli treftadaeth naturiol neu Isadeiledd Gwyrdd gwerthfawr, nac yn niweidio asedau treftadaeth mewn ffordd arall; a
- Yn defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen a / neu adeiladau segur ble bo modd.

Heblaw am Ffordd Sally mae ardal yr astudiaeth a'r cynigion o fewn ffin y pentref. Ni nodir unrhyw gynigion safle-benodol o fewn ffin y pentref (gweler y map isod). Amlinellir ffin y pentref mewn gwyrdd. Fe'i lleolir gerllaw ardal ynni adnewyddadwy a charbon isel ddynodedig (porffor golau). Mae'n agos at ystod o 'gategorïau calchfaen, tywod a graean a thywodfaen' a leolir ar draws gogledd y sir (ardal gysgodol melyn / oren).




**Ffigwr 4: Map cynigion LDP Abertawe 2010-2025 (Felindre)**

Mae rhan o ardal yr astudiaeth yn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (llinellau lletraws gwyrdd, map isod) – sy'n dilyn afon Lliw ac yn cwmpasu llwybr a choedwig Ffordd Sally. Mae rhan o'r llwybr a'r goedwig a rhan o'r caeau chwarae o fewn Parthau Llifogydd 2 a 3 CNC (llinellau glas llorweddol a phorffor fertigol). Mae ardal yr astudiaeth yn agos at ran o Goetiroedd Hynafol (linellau gwyrdd toredig). Pennir y dynodiadau hyn gan 'fecanweithiau neu gyrff' eraill ac nid ydynt wedi'u cynnwys ym Mapiau Cynigion yr LDP.




**Ffigwr 5: Map cyfyngiadau a phroblemau (Felindre)**

**Twristiaeth a Hamdden mewn ardaloedd gwledig**

Mewn ardaloedd gwledig, cefnogir cynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a hamdden cynaliadwy ble maent yn ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol y Sir ac atgyfnerthu cymunedau gwledig bywiog (TR 1: Twristiaeth, Adloniant a Datblygiad Hamdden).

**Parth y Gogledd Orllewin Fwyaf (GNW) ac Ardaloedd Datblygu Strategol (SDAs)**

Mae GNW yn cwmpasu cymunedau ôl-ddiwydiannol fel Gorseinon a Phontarddulais, a drodd yn aneddiadau noswylio'n bennaf a wasanaethir gan Ganolfannau Ardal mawr.

Cafodd nifer o safleoedd eu clustnodi'n hanesyddol at ddibenion cyflogaeth, ond ni chawsant eu datblygu eto am amryw o resymau, gan gynnwys safle strategol Felindre.

Mae'r strategaeth twf a ddewiswyd o fewn LDP Abertawe yn cynnig creu nifer cyfyngedig o gymdogaethau newydd cynaliadwy mewn SDAs o fewn yr ardal drefol bresennol neu'n agos ati. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod gan SDAs y potensial mwyaf i gyfrannu at weledigaeth ac amcanion strategol y cynllun a darparu llesiant a datblygu cynaliadwy.

Amlygwyd cyfleoedd ar gyfer twf aneddiadau ble y'i cefnogir gan ddarpariaeth isadeiledd.

Mae angen isadeiledd newydd i helpu i gynnal cymunedau presennol yn ogystal â chefnogi twf. Mae'r LDP'n amlygu nad yw seilwaith o'r fath yn debygol o ddigwydd yn realistig heb ddatblygiad pellach. Dyrennir SDAs o fewn Parth y Gogledd Orllewin (GNW) Fwyaf yn:

'SD G: I'r gogledd-orllewin o gyffordd 46 yr M4, Llangyfelach' sy'n ceisio creu anheddiad cynaliadwy newydd a fydd yn ategu safle cyflogaeth strategol Felindre gerllaw.


Cafodd safle'r hen waith alcam yn Felindre, sydd i'r Gogledd o Gyffordd 46 yr M4, ei baratoi eisoes i'w ddefnyddio fel Parc Busnes Strategol â gwasanaethau ar gyfer defnyddiau B1 a B2 i gynnwys diwydiannau ar eu prifiant, gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg, gwasanaethau lefel uchel a defnyddiau atodol ynghyd â meysydd parcio. Bydd tir yn Felindre yn chwarae rhan allweddol yn nhwf economaidd Abertawe. Bydd y safle strategol hwn yn darparu hyd at 800 o anheddau, gyda 565 yn debygol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae tir i'r gogledd orllewin o barc busnes Felindre hefyd yn rhoi'r cyfle i greu pentrefi trefol newydd, deniadol, cynaliadwy, o ansawdd uchel gyda'r potensial i barhau i dyfu ar ôl cyfnod y Cynllun. Bydd uwchgynllun ar gyfer y pentrefi'n cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru.

Cynlluniwyd gosod llwybrau Teithio Llesol o'r safle datblygu preswyl yn bennaf i'r gogledd o Heol Clasemont, Treforys i ogledd-orllewin y safle yn Felindre.

# 3. Cyd-destun lleol

## 3.1. Cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau sylfaen

Yn ddiweddar, gwnaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru gynigion ar sail ei adolygiad o ffiniau etholiadol awdurdodau lleol i'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Daeth y diwygiadau hyn i'r ffiniau i rym yn Abertawe ers etholiadau llywodraeth leol 2022. Gostyngodd nifer y wardiau yn y sir o 36 i 32. Arweiniodd hyn at weld llyncu Mawr gan dair ward – Clydach, Llangyfelach a Phontarddulais (gweler y mapiau ffiniau isod). Bydd pentref Felindre'n dod yn rhan o ward Llangyfelach. Nid oes ystadegau swyddogol ar gael ar gyfer ffin y ward newydd. Mae hyn hefyd wedi effeithio ar nifer yr LSOAs a'u ffiniau. Bydd LSOA Mawr yn cael ei ailgyflunio i mewn i LSOAs lluosog a alinir â'r tair ward, ond ni wnaed datganiad swyddogol ynghylch sut y cyflawnir hyn. Mae'r ffigurau y cyfeirir atynt ar gyfer ffiniau cyn 2022.





**Ffigwr 6: Ward Mawr ac anheddau allweddol**


Mawr yw ward leiaf poblog y sir, ar y cyd ag un arall – mae'n gorchuddio ardal o 57.82km $^2$, a gyda phoblogaeth o 1,857 (y boblogaeth ward leiaf yn y sir) mae ganddi ddwysedd poblogaeth o 32 o bobl fesul km[1] . Mae Mawr yn cynnwys glaswelltir ucheldirol agored yn bennaf, ar wahân i bentrefi Felindre (yn y de orllewin), Craig Cefn Parc (yn y rhan dde-ddwyreiniol), Garnswllt (yn agos at ffin ogleddol y sir â Sir Gaerfyrddin) a hefyd pentrefi bach Rhydypandy, Salem a Chwmcerdinen. Ffermydd gwasgaredig yn bennaf yw'r gweddill.

Tyfodd dau bentref Craig Cefn Parc a Garnswllt o amgylch y diwydiant glo a diwydiannau cysylltiedig, gan ddyddio'n ôl i'r 19eg ganrif o leiaf. Heddiw mae Craig Cefn Parc yn gymysgedd o dai awdurdod lleol, 'tai gweithwyr' pâr traddodiadol a thai mawr, unigol wedi'u moderneiddio. Mae gan Garnswllt gymysgedd tebyg o arddulliau.

[1] Amcangyfrifon Canol blwyddyn 2019, Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS)




**Ffigwr 7: Ffin ward Mawr cyn-Mai 2022 16**




**Ffigwr 8: Ffin ward wedi-Mai 2022 – Felindre o fewn ward Llangyfelach**

Mae gan Mawr gyfran uwch o bobl drow 65 na chyfartaledd y sir. Mae cyfran y bobl 16-64 oed yn is – mae hyn am fod y grwpiau oedran 16-24 a 25-44 yn is, gyda'r grŵp 45-64 oed yn sylweddol uwch.

| **Poblogaeth yr ardal** | **Mawr** | **Abertawe** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y boblogaeth** | 1,857 | 246,563 |
| **0-15** | 18.6% | 16.9% |
| **16-64** | 59.0% | 63.3% |
| **65+** | 22.4% | 19.8% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaethau ardaloedd bach (2020), ONS

**Ffigwr 9: Poblogaeth ardal – Mawr ac Abertawe**

Nid yw poblogaeth yr ardal wedi gweld twf yn ystod 2015-2020. Fodd bynnag, mae cyfraddau genedigaethau a marwolaethau ers hynny (ONS, 2020) yn awgrymu y bu rhywfaint o dwf yn ddiweddar. Yn anecdotaidd, yn Felindre, mae'r cynnydd mewn teuluoedd ifanc a symudodd i'r ardal ers y pandemig wedi arwain at dwf yn y boblogaeth leol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar 38.3% yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o 11.4%.

Mae'r lefelau cymwysterau'n agos at y cyfartaledd sirol.

Mae gan yr ardal gyfran sylweddol uwch o bobl economaidd weithgar na chyfartaledd y sir gyda gweithwyr hunan-gyflogedig, 13.8%, yn ddwbl cyfradd y sir. O'r rhai sy'n economaidd segur mae canran uwch wedi ymddeol. Amcangyfrifir bod cyflogaeth yn yr ardal 175 swydd (amcangyfrif gweithle'r ONS, 2020) a'r prif fath o gyflogwr yw amaeth.

| **Gweithgaredd Economaidd (pobl 16-74 oed)** | **Felindre** | **Felindre %** | **Abertawe %** |
|---|---|---|---|
| **Economaidd Weithredol** | **936** | **67.8** | **63.0** |
| **Cyflogeion: Rhan amser a llawn amser** | 679 | 49.2 | 47.9 |
| **Hunangyflogedig** | 191 | 13.8 | 6.6 |
| **Di-waith** | 37 | 2.7 | 3.9 |
| **Economaidd segur** | **445** | **32.2** | **37.0** |
| **Wedi ymddeol** | 256 | 18.5 | 15.6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofalu am y cartref neu'r teulu** | 58 | 4.2 | 3.7 |
| **Sâl neu anabl hirdymor** | 73 | 5.3 | 6.9 |
| **Arall** | 14 | 1.0 | 2.1 |
| **Myfyrwyr (economaidd weithredol a segur** | 73 | 5.3 | 13.3 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS

**Ffigwr 10: Gweithgaredd economaidd (pobl 16-74 oed) – Mawr ac Abertawe**

Mae gan breswylwyr Mawr gyfartaledd lefel uwch o swyddi rheoli a phroffesiynol a canolradd na chyfartaledd Abertawe.

| **Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC)** | **Mawr** | **Mawr %** | **Abertawe %** |
|---|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16-74 oed | 1,381 | 100 | 100 |
| 1-2. Rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch | 429 | 31.1 | 27.5 |
| 3-4. Galwedigaethau canolradd | 396 | 28.7 | 20.3 |
| 5-7. Galwedigaethau arferol a gwaith llaw | 446 | 32.3 | 33.9 |
| 8. Erioed wedi gweithio ac yn ddi-waith yn y tymor hir | 38 | 2.8 | 5.2 |
| Heb eu dosbarthu (myfyrwyr llawn amser) | 72 | 5.2 | 13.1 |

Ffynhonnell: NS-SeC – Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd Ystadegau cenedlaethol (fersiwn tri dosbarth), Cyfrifiad 2011, ONS

**Ffigwr 11: Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC) – Mawr ac Abertawe**

Cyfartaledd incwm blynyddol net aelwydydd yn yr ardal yw £25,900 y 14eg isaf ar y cyd yn y sir, a 4% islaw'r cyfartaledd o £26,900. Caiff hyn ei lywio gan amcangyfrifon yr ONS ar sail model ar lefel MSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol) ar gyfer 2015-16. Ac mae'n defnyddio MSOA Abertawe 004 sy'n cyd-fynd agosaf â ffin y ward.

Mae cyfansoddiad yr aelwydydd yn cynnwys llawer mwy o 'barau priod neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw' nag Abertawe, sef 39.4% o'i gymharu â 30.4%.

Mae tai ar wahân yn cyfrif am lawer mwy o'r math o lety aelwyd (52%) na'r cyfartaledd sirol (23.2%) gyda chanran uwch o aelwydydd yn cael eu perchnogi'n llwyr (44.7% o'i gymharu â 33.4%).

Gwelodd prisiau tai leihad blynyddol mewn gwerth ar gyfartaledd o -£24,250 (-15.4%) o gymharu â chynnydd o £6,000 (4%) ar draws Abertawe (Ystadegau Prisiau Tai ar gyfer Ardaloedd Bach, ONS, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020). Efallai fod y ffigurau hyn yn cael eu heffeithio gan nifer cyfyngedig o werthiannau (yr oedd eu gwerth islaw eraill yn yr ardal).

Y band treth cyngor amlycaf ar gyfer 'stoc annedd' yw E o'i gymharu â B-C ar draws Abertawe (cronfa ddata weinyddol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, 2020).

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at wybodaeth a gasglwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cymru fel rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Mae'n nodi'r mynegai cyffredinol a'r safle ar gyfer yr wyth parth yn yr un Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn ward Mawr. Mae 1909 LSOA yng Nghymru a 148 yn Abertawe. Po isaf yw'r safle / rhif, yr uchaf yw'r lefel o amddifadedd. Niferoedd mewn cromfachau yw'r safleoedd yn Abertawe.

Mae ward Mawr yn cynnwys 1 LSOA – Mawr (cod LSOA W01000803). Mae'i leoliad parth cyffredinol yn ei osod y tu allan i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac o gwmpas pwynt canol cyfartaledd y sir – rhif 1,029 yng Nghymru a 72 yn Abertawe. Mae'r cyfraddau parth yn gyffredinol ganolig i isel. Serch hynny, nodir parth 'Mynediad i Wasanaethau' yma yn ail fwyaf difreintiedig yn Abertawe, a rhif 128 yng Nghymru – mae hyn ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yn y sir, ac mae'n adelwyrchu lleoliad gwledig yr ardal a'i phellter o amwydnerau. Mae'r parth 'Mynediad at wasanaethau' yn amlygu amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein. Mae'r parth 'Amgylchedd Corfforol' o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yn y sir, ac mae yn y 36ain safle yn Abertawe, a rhif 80 ledled Cymru. Mae'r parth 'Amgylchedd Corfforol' yn mesur ffactorau yn yr ardal leol a allai effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw mewn ardal.

| Ward | Maes Allbwn Is ac Uwch: | Parthau a Safle | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol | Incwm | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad i wasanaethau | Tai | Diogelwch cymunedol | Amgylchedd corfforol |
| Mawr | Mawr | 1029 (72) | 1139 (82) | 1217 (95) | 1335 (100) | 1198 (83) | 128 (2) | 746 (48) | 996 (72) | 805 (36) |

| | Mwyaf difreintiedig | Safle |
|---|---|---|
| (coch) | 10% | 1-191 |
| (oren) | 20% | 192-382 |
| (melyn) | 30% | 383-573 |
| (glas golau) | 50% | 574-955 |

**Ffigwr 12: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – ward Mawr / Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is**

## 3.2. Hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth

Daeth twristiaeth a hamdden yn sectorau cynyddol bwysig o economi leol Abertawe wledig, yn enwedig o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr. Mae ardal ehangach Bae Abertawe'n croesawu mwy na phedair miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.

Yn ôl ymchwil twristiaeth STEAM yn 2019 amcangyfrifir bod 4.79 miliwn o ymwelwyr blynyddol â'r ardal (-0.2% o gymharu â 2018) gyda 3.12 miliwn (-1.6% o gymharu â 2018) yn ymwelwyr dydd a 1.67 miliwn (+ 2.5% o gymharu â 2018) yn ymwelwyr sy'n aros. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn yr ardal yw £477.22 miliwn (+2.2% o gymharu â 2018) sy'n cefnogi 5,998 o swyddi (+ 3.4% ers 2018).[2]

Canfu arolwg ymwelwyr Bae Abertawe yn 2019 fod yr arfordir, traethau, golygfeydd a thirwedd yn parhau i fod yn atyniadau allweddol gyda cherdded yn weithgaredd allweddol.[3]

Mae'r ardal yn cynnwys nifer o atyniadau poblogaidd, gyda llawer ohonynt yn parhau i fuddsoddi a datblygu eu harlwy yn unol â thueddiadau'r dyfodol a dyheadau ymwelwyr. Er bod llawer o'r rhain o fewn AHNE Gŵyr, ymhlith y prif atyniadau mae Coed Dyffryn Penllergaer (a restrir gan Cadw ar y gofrestr statudol Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig). Fe'i lleolir yn agos at gyffordd nesaf y draffordd i'r gorllewin o Felindre; tua 4.5 milltir / 10 munud o daith mewn car.

Mae'r ardal ehangach yn cynnwys nifer o deithiau cerdded sy'n amlygu lleoliadau a nodweddion diddorol ar hyd y ffordd. Lansiodd Cyngor Abertawe bedwar canllaw cerdded newydd yn ddiweddar fel rhan o gyfres Teithiau Cerdded Arfordir Gŵyr. Pwyslais allweddol yw menter Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, sy'n cynnwys y llwybr arfordir 55 milltir o hyd sy'n ymestyn o amgylch holl arfordir Abertawe a Gŵyr.

Yn ogystal, ceir detholiad o lwybrau cerdded i ddarganfod Abertawe wledig, gan gynnwys Llwybr Treftadaeth Mawr sy'n cysylltu Cronfa Ddŵr Lliw Isaf â Felindre.

Bu i'r ardal ehangach hefyd ddatblygu nifer o deithiau bwyd a llwybrau chwilio am fwyd i'w harchwilio trwy fentrau fel Cylch Bwyd Da Bae Abertawe.

Yr hyn sy'n bwysig i Felindre o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth a lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig.

2023 yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru – Llwybrau / Wales by Trails. Mae 'Llwybrau Cymru yn deillio o lwyddiant y pum blwyddyn thema a gynhaliodd Croeso Cymru hyd yma: antur, chwedlau, môr, darganfod, awyr agored. Mae'r blynyddoedd thema'n cefnogi'r nod strategol o ledaeniad, gwariant a thymhorau trwy gyflwyno Cymru fel cyrchfan groesawgar, gynhwysol sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae Croeso Cymru'n credu bod thema llwybrau'n cael ei harwain gan brofiad ac yn ddigon syml ar gyfer ystod eang o ddiddordebau a'i bod yn ddigon hyblyg i bartneriaid, cyrchfannau, a busnesau twristiaeth mawr neu fach ymuno â hi i'w chefnogi. Mae pobl ôl-bandemig yn chwilio fwyfwy am brofiadau wedi'u curadu sy'n eu hailgysylltu, boed hynny â threftadaeth, diwylliant, natur, cymuned. Bydd thema'r llwybrau'n annog pobl i ddod o hyd i drysorau anghofiedig, cofleidio teithiau'r synhwyrau a chreu atgofion ar hyd llwybrau o gwmpas atyniadau, gweithgareddau, tirweddau ac arfordiroedd.

Mae rhaglen Leader wedi buddsoddi er mwyn tyfu a datblygu'r cynnyrch twristiaeth, gan gynnwys Cynllun Twf Llety Gwledig y Cynllun Datblygu Gwledig, a sicrhaodd fuddsoddiad i wella darpariaeth llety yn Abertawe wledig. Wrth i raglen Leader ddod i ben, bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn gyllidwr sylweddol ar draws y rhanbarth, ac sy'n gweld Cyngor Abertawe fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, yn sicrhau bod nifer o gronfeydd ar gael gan gynnwys y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy a'r Gronfa Arloesi Gwledig.

[2] STEAM (Model Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough) 2019

[3] Arolwg Ymwelwyr Bae Abertawe 2019, Cyngor Abertawe

# 4. Ymchwil gynradd ac ymgynghoriad

## 4.1. Crynodeb o'r camau ymgysylltu

Y cysyniad, a ddatblygwyd gyda Chyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre, oedd archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau, a defnyddio mannau awyr agored o amgylch Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol. Roedd nifer o brosiectau eisoes wedi'u hystyried gan y cyngor a'r pwyllgor, sy'n gynrychiolwyr a phreswylwyr lleol. Llywiwyd y rhain gan eu gwybodaeth o'r ardal a thrafodaethau gyda'r gymuned ehangach. Rhoddwyd sawl cam ymgysylltu ar waith i sicrhau bod y cynigion yn ymateb i anghenion trigolion ac ymwelwyr, a bod y gymuned yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu helpu i'w siapio.

Yn gyntaf, amlygwyd syniadau oedd yn dod i'r amlwg, dan arweiniad y cyngor a'r pwyllgor, i'w datblygu ymhellach. Y bwriad oedd ystyried sut y gellid datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Neuadd Les Felindre – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Caeau chwarae – cynnig ychwanegol
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen
- Llwybr a choedwig Ffordd Sally – ailsefydlu a gweithgareddau ysgol y goedwig
- Ardal chwarae i blant – ychwanegiad newydd
- Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu

Yn ail, cynhyrchwyd arolwg cymunedol i ganfod barn am syniadau'r prosiect a nodi unrhyw syniadau eraill. Byddai'r arolwg hefyd yn cael ei ddefnyddio i nodi pwy sy'n dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf a / neu lywio datblygiad cynigion yn y dyfodol. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein gyda dolen a chod QR yn cael eu hyrwyddo ar wefan Cyngor Cymuned Mawr a gwefan a a thudalen Facebook Neuadd Les Felindre. Paratowyd copïau caled a sicrhawyd eu bod ar gael i'w casglu, eu cwblhau a'u gadael yn Neuadd Les Felindre.

Yn drydydd, cynhyrchwyd taflenni papur a'u dosbarthu o gwmpas Felindre gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre, i hybu'r arolwg a sesiwn picio i mewn.

Trefnwyd fod y sesiwn yn digwydd ddydd Sadwrn 5 Tachwedd 10.00-11.30am yn Neuadd Les Felindre i drafod y prosiect ar sail un i un, ac i helpu unrhyw un oedd angen cymorth i gwblhau'r arolwg.

Yn bedwerydd, cynhaliwyd arolwg plant ym mis Rhagyfr 2022 i amlygu pa fathau o offer yr hoffai'r plant eu cael mewn parc / maes chwarae.

***Yn ystod y trafodaethau hyn ac ochr yn ochr â sylwadau a dderbyniwyd drwy'r arolwg, mynegwyd diddordeb gwirioneddol gan y gymuned yn yr hyn sydd ei angen yn yr ardal a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn ei chwarae.***

Mae hyn yn cynnwys yn fras:

Mae **Neuadd Les Felindre'n** chwarae rhan bwysig yn y gymuned, gan weithredu fel canolbwynt y pentref ac yn lleoliad pwysig ar gyfer dod ynghyd yn gymdeithasol.

Mae Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre'n ymgeisio'n barhaus i adeiladu ar y gwasanaethau a ddarperir gan y neuadd, a safon y cyfleuster. Yn ddiweddar, llwyddon nhw i sicrhau grant gan Gyngor Abertawe fel rhan o fenter Llecynnau Cynnes ledled y sir mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, er mwynd arparu lleoledd cynnes, croesawgar a diogel mewn cymunedau ble gall pobl fynd dros y gaeaf.

Mae'r gymuned yn hoffi'r neuadd a'i chyfleusterau ac yn ei chefnogi:

"Mae Felindre'n ardal mor brydferth gyda neuadd mor wych, caeau chwarae ac ati… byddai gallu gwella /cynyddu cyfleusterau i annog defnydd yn anhygoel. Adeiladwyd y neuadd hon gan y gymuned gyda'u harian eu hunain a mater i ni yw parhau yn ôl eu traed."

Ymysg awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol mae:

"Mwy o gyngherddau"

"Mwy o glybiau cymunedol"

"Adfer Clwb Ieuenctid"

"Byddai'n braf gweld mwy o ddigwyddiadau, dosbarthiadau ac ati, tu fewn a thu fas."

"Diwrnodau gweithgaredd llawn hwyl i deuluoedd"

**Caeau chwarae ac ardal chwarae i blant.**

**Parc / maes chwarae.** Gyda chau'r Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre yn 2019 collwyd cyfleuster lleol pwysig i blant gymdeithasu, dysgu a chwarae. Nid oes gan yr ardal faes chwarae i blant ar hyn o bryd a byddai croeso mawr i'r ddarpariaeth hon. Yn anecdotaidd, nid yw'r newid mewn demograffeg, gyda thwf yn nifer y plant a theuluoedd ifanc, yn cael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth o ran gwasanaethau / cyfleusterau. Nid oes gan yr ardal barc / maes chwarae plant. Gyda symud CPD Llangyfelach allan o'r Neuadd a'i meysydd chwarae mae'r cyngor a'r pwyllgor bellach mewn sefyllfa i ystyried opsiynau a safleoedd amgen ar gyfer darparu cyfleusterau chwarae i blant. Byddai lleoli'r cyfleusterau chwarae ar ran o'r caeau chwarae yn well na defnyddio'r cae / tir prysgwydd gan fod hwnnw wrth ochr y ffordd fawr ac ar dir serth.

Mae'r sylwadau'n cynnwys:

"Mae maes chwarae plant yn hollbwysig."

"Yn fwy na dim arall, y parc i blant ddylai gael blaenoriaeth. Mae hyn yn rhywbeth y mae mwyafrif y trigolion wedi'i godi ers nifer o flynyddoedd."

"Ers i ysgol y pentref gau'n anffodus, mae'n hanfodol bod gennym faes chwarae i blant fel bod y plant yn cael cyfle i gwrdd a dod i adnabod ei gilydd a helpu i integreiddio newydd-ddyfodiaid i'r pentref."

"Maes chwarae i blant y pentref ac i ddenu ymwelwyr. Mae'n ymddangos bod gan bob man arall feysydd chwarae newydd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth byddai'n hyfryd cael man diogel i'r plant chwarae. Ro'n i'n arfer defnyddio'r hen faes chwarae yn gyson pan oedd fy mhlant yn ifanc, rwy'n gweld ei eisiau nawr gyda'r wyrion a'r wyresau."

“Mae gen i deulu ifanc a byddai mwy o weithgareddau a pharc ac ati yn ychwanegiad anhygoel i fy nheulu ifanc ei ddefnyddio.”

“Byddai’n wych cael mwy yno i ddifyrru’r plant yn ddiogel fel yn Rhydypandy, Llangyfelach ac ati ble mae parciau’n dawel braf.”

“Felindre yw’r unig bentref yn Abertawe sydd heb barc i blant ifanc, sy’n drist iawn o ystyried ein demograffeg. Mae ein poblogaeth o blant ifanc wedi tyfu’n sylweddol ac nid yw’r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn adlewyrchu hyn.”

“Rhaid mai ni yw’r unig bentref yn Abertawe heb faes chwarae i’n plant, mae angen mynd i’r afael â’r rhain.”

**Caeau chwarae**

Mae cefnogaeth i ardaloedd eraill y caeau chwarae’n cynnwys:

“Rhywel diogel i gerdded.”

“Lle hyfryd i fynd â chi am dro”

“Diwrnod cwrdd â’r anifeiliaid i blant?”

Mae gan **Ffordd Sally** hanes lleol pwysig a bydd clirio gordyfiant a dod â’r llwybr yn ôl i ddefnydd yn rhoi cyfle i weithredu fel pwynt mynediad craidd ar gyfer gweithgareddau coetir / amgylcheddol, gwella cysylltiadau â'r meysydd chwarae, maes chwarae i blant ac o bosibl Lwybr Treftadaeth Mawr drwy gysylltu â Heol Myddfai (o bosibl drwy’r Shepherds Country Inn a / neu’r ysgol newydd ar gyfer anableddau dysgu) a ffurfio rhan o’r ddolen ddychwelyd.

Mae trafodaethau anffurfiol rhwng Cyngor Cymuned Mawr a'r ysgol newydd ar gyfer anawsterau dysgu wedi amlygu diddordeb gwirioneddol mewn cael mynediad i ben uchaf y llwybr yn uniongyrchol o dir yr ysgol. Byddai'r ddau sefydliad yn croesawu defnyddio'r llwybr, y meysydd chwarae a'r neuadd.

Mae Llwybr Treftadaeth Mawr yn llwybr presennol a ddisgrifir gan Croeso Bae Abertawe fel hyn: “Parsel Mawr, sy’n fwy adnabyddus fel ‘Mawr’, yw mewndir gwledig hardd Abertawe. Mae Llwybr Treftadaeth Mawr yn tywys cerddwyr trwy bentref tlws Felindre a Chronfa Ddŵr boblogaidd Lliw Isaf, gan fynd heibio i dirnodau sy’n dangos cyfraniad sylweddol Mawr at dwf Abertawe a De Cymru drwy ei ffermydd, mwyngloddiau a’r gronfa ddŵr ei hun.”

Mae’r llwybr yn cychwyn ac yn gorffen wrth Gronfa Ddŵr Lliw Isaf ac mae’n mynd yn erbyn cyfeiriad y cloc i Felindre ble mae’n dolennu’n ôl arno’i hun wedyn. Mae'r llwybr tua 3.5 milltir (5.6km) o hyd gydag amser cerdded amcangyfrifedig o 2-2 ½ awr.

Ymysg sylwadau ar gyfer Ffordd Sally mae:

“Byddai Ffordd Sally ac ysgol goedwig yn hollol anhygoel gan fod yr ysgol yn arfer ei defnyddio at y diben hwn a byddai mor addas i’w hadfer. Mae'r ardal mor hawdd i'w chyrraedd ac mor agos at feysydd parcio sy'n ei gwneud hi'n hawdd ar gyfer clybiau, ysgolion a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Byddai’n atyniad mawr i gael pobl i ddod i’r pentref yn ogystal â’r gymuned leol.”

“Mae gan Ffordd Sally hanes neis, ond mae wedi gordyfu’n sylweddol ers i’r ysgol gau. Oni bai y bydd yn dod yn rhan o’r pentref ehangach, fel llwybr sy’n cysylltu â Heol Myddfai, bydd yn parhau i ordyfu a bydd yn faich ariannol ac yn berygl i gerdded. Nawr bod yr ysgol wedi mynd, does dim pwrpas iddo.”

**Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA).** Annog defnydd o'r cyfleuster ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a pheidio â defnyddio'r ardal ar gyfer parcio mwyach.

Mae sylwadau’n cynnwys:

“Mae angen cyfleusterau chwaraeon ar blant hŷn hefyd i’w hannog i gyfarfod yn yr awyr agored a chymdeithasu yn y gymuned”

Derbyniodd cynnig **marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu** 84% o gefnogaeth. Roedd 66% o’r rhai oedd yn cefnogi’n ei weld yn ddymunol. Mae hyn, law yn llaw â thrafodaethau a sylwadau a dderbyniwyd, yn awgrymu cefnogaeth gref – ac mae'n debygol o gael ei weld fel darpariaeth atodol / ategol ochr yn ochr â chynigion eraill.

“Byddai marchnad ffermwyr yn syniad hyfryd gan ei fod yn cyd-fynd â naws y pentref.”


# 4.2. Arolwg cymunedol a sesiwn picio i mewn




**Ffigwr 13: Sesiwn picio i mewn yn Neuadd Les Felindre**


**Ymatebwyr i'r arolwg**

Cwblhawyd 43 arolwg. O blith y rhain mae 36 (84%) yn byw yn Felindre neu'n agos iawn, ac roedd 7 (16%) yn ymwelwyr am y dydd / twristiaid. Mae 78% o ymatebwyr yn byw o fewn 10 munud i Neuadd Les Felindre.




**Ffigwr 14: Agosrwydd at yr ardal astudio**

Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn cynrychioli ystod rhesymol o oedrannau, heblaw am bobl 0-16 oed a 16-24 oed. Daliwyd barn yr ystod oedran iau (dan 16) fel rhan o drafodaeth benodol ac arolwg am y parc / maes chwarae. Roedd 68% o'r ymatebwyr yn fenywaidd.




**Ffigwr 15: Ystod oedran ymatebwyr**

**Defnydd presennol – amlder a hyd**

Y caeau chwarae sydd â'r nifer fwyaf o ymweliadau. Mae 40% o ymatebwyr yn defnyddio’r caeau o leiaf unwaith yr wythnos, 7% unwaith neu ddwyaith y mis, a 19% sawl gwaith y flwyddyn. Roedd 16% heb ymweld.

Bydd 9% yn defnyddio’r Neuadd Les o leiaf unwaith yr wythnos, 12% the Welfare Hall at least once a week, 12% unwaith neu ddwyaith y mis, a 49% sawl gwaith y flwyddyn. Roedd 7% heb ymweld.

Gan y MUGA a Ffordd Sally mae’r amrywiaeth fwyaf. Mae 19% yn defnyddio’r MUGA o leiaf unwaith yr wythnos, 9% unwaith neu ddwyaith y mis a 37% sawl gwaith y flwyddyn. Mae 16% yn defnyddio Ffordd Sally o leiaf unwaith yr wythnos, 9% unwaith neu ddwyaith y mis a 30% sawl gwaith y flwyddyn. Mae 30% o ymatebwyr heb ymweld â’r naill na’r llall. Mae hyn yn awgrymu fod ymwybyddiaeth ohonynt a / neu’u hapêl presennol yn fwy cyfyng – i’r bobl sy’n eu defnyddio maen nhw’n dueddol o wneud hynny’n rheolaidd, tra bo eraill yn dewis peidio â’u defnyddio, neu ddim yn ymwybodol ohonynt.

Mae sylwadau’n cefnogi hyn:


“Mae gan Ffordd Sally hanes braf.”

“Ychydig iawn o bobl sy’n gwybod beth yw MUGA neu beth yw Ffordd Sally”

“Ro’n i’n byw yno (nôl a mlaen) ers 1993 – ac erioed wedi clywed am Ffordd Sally? Ble mae hyn os gwelwch yn dda?”


“Peidiwch â defnyddio ardal aml-chwaraeon fel maes parcio, am nad yw bellach yn addas ar gyfer chwarae gemau pêl oherwydd difrod i’r wyneb.”

“Ni ddylid defnyddio cwrt y Ganges fel maes parcio gan ei fod yn difetha’r cwrt.”




**Ffigwr 16: Presenoldeb rheolaidd**


Heblaw am y Neuadd Les, dyw ymweliadau arferol fel arfer ddim yn para mwy na 2 awr. Mae hyn yn amrywio ar draws y cyfleusterau.




**Ffigwr 17: Hyd ymweliadau**


Drwy dynnu'r ymateb 'amherthnasol' i ganolbwyntio ar bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau, awgrymir bod taeniad o hyd ar gyfer y Neuadd Les (a'r pegwn yn 34% am 1-2 awr)

Pegwn y cyfnodau ar gyfer y cyfleusterau eraill yw: 0.5-1 awr yn y caeau chwarae (42%); 0.5-1 awr yn y MUGA (46%); a hyd at 30 munud ar Ffordd Sally (79%).




**Ffigwr 18: Hyd ymweliadau ac eithrio ymatebion n/a**


Gofynnwyd i gyfranogwyr roi eu cymhelliad tebygol ar gyfer ymweld yn y dyfodol a gofynnwyd iddynt gadw hwn i un ateb yn unig h.y. cadarnhau eu prif reswm. Nododd 40% y bydden nhw'n dod i ddefnyddio'r cyfleusterau mewn amgylchedd diogel. Dywedodd 18% y bydden nhw'n dod i gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp a drefnwyd, 16% i gymdeithasu â theulu neu ffrindiau. Wrth roi ymateb ar wahân ar gyfer gweithgareddau awyr agored, 'i dreulio amser tu fas ac ymlacio' a 'mynd am dro' roedd gan y ddau ganran cyfun o 24. Nododd 3% 'cymryd rhan neu wylio gweithgareddau chwaraeon' a 0% ar gyfer 'cymryd rhan mewn ymweliad ysgol ffurfiol neu fel rhan o daith ysgol neu weithgaredd y tu fas i'r dosbarth. Byddai angen ystyried tripiau ysgol ar wahân a byddai angen i unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol gael ei ddatblygu gydag ymgynghoriad ag ysgolion cyfagos.




**Ffigwr 19: Ysgogiad tebygol dros ymweld yn y dyfodol**

**Addysgu cynigion – ymyriadau allweddol a galw yn y dyfodol**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yr hoffent ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio a threfnu'r cynigion yn ôl rhai hanfodol, dymunol neu ddim yn angenrheidiol. Roedd cefnogaeth gref i'r holl gynigion.




**Ffigwr 20: Beth hoffai ymatebwyr ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio**

Rhannwyd cefnogaeth gyffredinol yn y tabl isod i ddangos canrannau cyfun hanfodol a dymunol. Rhestrwyd y cynigion yn ôl y gefnogaeth gyffredinol uchaf.

- Yr ardal chwarae plant sydd â'r lefel uchaf o gefnogaeth, sef 92%. Mae dwy ran o dair o'r cefnogwyr hyn yn ei ystyried yn hanfodol a thraean yn ei weld yn ddymunol;
- Y farchnad ffermwyr / peiriannau gwerthu sydd â'r lefel uchaf ond un o gymorth, sef 84%. Mae un rhan o bump o'r cefnogwyr yn ystyried hyn yn hanfodol a phedair rhan o bump yn ei weld yn ddymunol;
- Cyfleusterau / gwasanaethau ychwanegol y Neuadd Les sydd â'r lefel trydydd uchaf o gefnogaeth ar 81%. Mae bron i hanner y cefnogwyr yn ystyried hyn yn hanfodol;
- Mae gan arlwy ychwanegol caeau chwarae 78% o gefnogaeth. Mae 40% o'r cefnogwyr i hwn yn ei ystyried yn hanfodol;
- Cefnogir gweld defnydd ychwanegol yn cael ei wneud i'r MUGA gan 78% o ymatebwyr. O'r rhain mae bron i draean yn ei ystyried yn hanfodol;
- Mae 60% yn cefnogi adfer Ffordd Sally. Mae 40% o'r cefnogwyr yn ei ystyried yn hanfodol;
- Arall (a oedd, o'u hadolygu, yn weithgareddau y gellid eu darparu drwy'r cyfleusterau presennol) a gefnogir gan 28% o'r ymatebwyr. Mae dros chwarter yn ystyried hyn yn hanfodol.


| **Cynigion** | **Cefnogaeth gyffredinol** | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Diangen** |
|---|---|---|---|---|
| Caeau chwarae – cynnig ychwanegol | 92.11% | 60.53% | 31.58% | 7.89% |
| Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu | 84.21% | 18.42% | 65.79% | 15.79% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Neuadd Les– cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol | 81.58% | 39.47% | 42.11% | 18.42% |
| Caeau chwarae – cynnig ychwanegol | 78.95% | 34.21% | 44.74% | 21.05% |
| Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen | 78.94% | 23.68% | 55.26% | 21.05% |
| Ailsefydlu Ffordd Sally | 60.52% | 23.68% | 36.84% | 39.47% |
| Arall | 28.94% | 7.89% | 21.05% | 71.05% |

**Ffigwr 21: Cefnogaeth i gynigion**

Bu'r cyfranogwyr yn ystyried a fyddai buddsoddi yn y cyfleusterau a'r gwasanaethau yn eu hannog i ymweld yn amlach. Mae canran y rhai a ddywedodd 'ydw' wedi'i graddio yn ôl y tebygolrwydd uchaf:

- Neuadd Les Felindre – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol 84%
- Caeau chwarae – cynnig ychwanegol 76%
- Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu 76%
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen 71%
- Ardal chwarae i blant – ychwanegiad newydd 68%
- Ailsefydlu Ffordd Sally 50%
- Arall 13%




**Ffigwr 22: Annog mwy o ymweliadau**

## 4.3. Arolwg parc / maes chwarae i blant

Cynhaliwyd sesiwn grŵp yn Neuadd Les Felindre, gan Gyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre, i ofyn i'r plant pa offer yr hoffen nhw ei gynnwys mewn maes chwarae / parc plant. Cymerodd 16 o blant ran. Awgrymwyd 5 eitem fel ysgogiad ac anogwyd y plant i feddwl am unrhyw rai eraill. Defnyddiwyd darluniau i helpu gyda thrafodaethau – roedd y rhain wedi'u cynhyrchu ymlaen llaw pan gysylltodd y cyngor a'r pwyllgor â chyflenwyr i fesur yr hyn y gellid ei greu a'r costau cysylltiedig.

Mae'r elfennau craidd yn cynnwys llithren, siglenni, ffrâm ddringo a si-so.

| Eitem | Ymatebion |
|---|---|
| Llithren | 16 |
| Siglenni* | 15 |
| Siglen gawell | 15 |
| Ffrâm Ddringo | 14 |
| Si-so | 14 |
| Arall** | 6 |

**Ffigwr 23: Arolwg parc / maes chwarae plant**

* Siglenni: Ynghyd ag un i blant anabl ac un i oedolion

**Arall: Rowndabowt x2; Trampolîn x1; Lle chwarae tywod x1; Jac Codi Baw x1; Llong morladron x1




**Ffigwr 24: Dau ddarlun o offer maes chwarae a gynhyrchwyd ar gyfer Neuadd Les Felindre a'r caeau**

# 5. Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau

## 5.1. Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT

Dehonglwyd problemau, heriau a chyfleoedd meintiol ac ansoddol allweddol sy'n codi o'r proffil economaidd-gymdeithasol, ymchwil llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid prosiect a phobl leol. Mae hyn wedi llywio dadansoddiad SWOT – techneg gynllunio strategol i helpu i nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau sy'n gysylltiedig â chynllunio prosiect ar gyfer ardal astudiaeth Felindre. Drwy gyfrwng y gwaith meintiol ac ansoddol manylwyd ar amcanion yr astudiaeth ac amlygwyd y ffactorau mewnol ac allanol sy'n ffafriol ac anffafriol i'w cyflawni. Mae'r dadansoddiad SWOT yn grwpio darnau allweddol o wybodaeth yn ddau brif gategori: Ffactorau mewnol – cryfderau a gwendidau mewnol yr ardal; a ffactorau allanol – y cyfleoedd a'r bygythiadau a gyflwynir gan yr amgylchedd y tu allan i'r ardal.

Mae'r dadansoddiad SWOT hwn wedi llywio cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a chymhariaeth o opsiynau datblygu – gan alluogi cymharu rhesymeg, nodau gweithredol / cyflawni a chanlyniadau er mwyn cynyddu cryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a lliniaru effaith bygythiadau.

| | **O Gymorth** | **Niweidiol** |
|---|---|---|
| **Ffactorau mewnol** | **Cryfderau**<br>• Ymrwymiad Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre i amlygu bylchau a mynd i'r afael â nhw wrth ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau lleol<br>• Cyfleusterau craidd eisoes ar y safle<br>• Lleolir cynigion ar dir / mewn cyfleusterau sydd ym mherchnogaeth MCC<br>• Agosrwydd cyfleusterau / cynigion at ei gilydd a rhwyddineb mynediad rhyngddynt<br>• Mae cyfleusterau a gwasanaethau cyflenwol eisoes yn denu'r gymuned | **Gwendidau**<br>• Adnoddau ariannol sydd ar gael<br>• Topograffeg y cae / tir nad yw'n cael ei ddefnyddio i dde orllewin y Neuadd<br>• Cynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally<br>• Digwyddiadau unigol o ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Mynediad i wasanaethau ar draws y ward<br>• Amgylchedd Corfforol ar draws y ward |

| | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|
| **Ffactorau allanol** | • Cynnydd mewn teuluoedd ifanc yn symud i'r ardal ar ôl y pandemig wedi arwain at dwf mewn poblogaeth<br>• Mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol cyfyngedig y tu allan i ardal yr astudiaeth. Cyfle i ddatblygu ymhellach leoliadau allanol a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig<br>• Dim maes chwarae i blant yn yr ardal<br>• Cyfle i wella bioamrywiaeth – gwell cynefinoedd i greu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt<br>• Gall cynigion wella safle is 'Mynediad at wasanaethau' yr ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)<br>• Cysylltu cynigion â Llwybr Treftadaeth Mawr (dolen Cronfa Ddŵr Lliw Isaf i Felindre)<br>• Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth<br>• Cronfa Ffyniant Gyffredin – gan gynnwys Arloesedd Gwledig, Cymunedau Cynaliadwy, Datblygu Lle, Cefnogi Busnes Lleol | • Mwy o gystadleuaeth am gyllid sector gwirfoddol a chyhoeddus |

**Ffigwr 25: Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT**

# 5.2. 'Cyfle'r 'Farchnad'

Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer gweld mwy o ddatblygu ar yr adnodd cymunedol i gwrdd yn llawnach ag angen 'cymunedol', taclo bylchau yn y ddarpariaeth a gwella'r gwaith o gynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally.

O ran dadansoddi'r farchnad, mae'n debygol mai grwpiau defnyddwyr allweddol y datblygiadau newydd fydd:

**<u>Cynradd</u>**

**Marchnad breswyl leol**

- Yn bennaf o fewn amser gyrru o 10 munud. Mae'n debygol mai'r farchnad / gynulleidfa allweddol fydd trawstoriad o'r gymuned leol; teuluoedd, arddegwyr, pobl wedi ymddeol, cerddwyr hamdden, ungiolion ynysig a phobl ag anawsterau dysgu
- Byddai'r dalgylch hefyd yn cynnwys pobl o fewn amser gyrru o 20 munud, yn enwedig y rheiny i'r gogledd o'r M4 ac ardaloedd cyfagos i Felindre.

**Ymweliadau dysgu / addysgol lleol**

- Ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol ynghylch bioamrywiaeth, gweithgareddau amgylcheddol a choed
- Ymweliadau ysgol a grwpiau diddordeb arbenigol.

**<u>Cynulleidfaoedd eilaidd</u>**

**Y farchnad ymwelwyr**

- Gall y farchnad cyfeillion a pherthnasau sy'n ymweld (VFR) fod yn rhan gymedrol o'r cymysgedd ymwelwyr.
- Cyfleoedd i gysylltu ag atyniadau cyfagos megis Cronfa Ddŵr Lliw Isaf drwy gyfrwng Llwybr Treftadaeth Mawr. Byddai hyn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig o ran maint ac yn dibynnu ar boblogrwydd y gronfa a diddordeb mewn archwilio ardaloedd cyfagos e.e. apelio at ddiddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau cyfagos.

**Ffigwr 26: Dadansoddi'r farchnad – grwpiau defnyddwyr allweddol**

## 5.3. Egwyddorion datblygu

Bu sawl egwyddor datblygu'n sail i'r broses o gynhyrchu ac arfarnu opsiynau.

**Adnodd cymunedol sy'n darparu cyfleoedd cymdeithasol a hamdden i'r gymuned leol yn bennaf a gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr:**

- **Datblygu ymhellach yr adnodd cymunedol i ateb angen 'cymunedol' yn llawn a bod yn hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr**
- **Darparu ar gyfer demograffeg newidiol yn yr ardal**
- **Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc**
- **Gwella cynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally, gan eu dychwelyd i ddefnydd cynaliadwy**

**Ffigwr 27: Egwyddorion datblygu**

## 5.4. Opsiynau datblygu

Amlinellir tair lefel ymyrraeth isod fel cymhariaeth o ran gaddfa a ffurf. Po fwyaf yw'r raddfa, mwyaf fydd effaith y prosiect o ran buddion, cost cyfalaf, risg a rhaglenni cyflawni. Mae'r opsiynau'n cymharu ac yn cyferbynnu'r hyn sy'n briodol, a'r hyn a fyddai'n cyd-fynd agosaf â dyheadau, cyfleoedd marchnad ac egwyddorion datblygu'r partneriaid a'r gymuned. Y tri opsiwn yw:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn Dau: Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre
- Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

**Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae**

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad cryno** | Parhau fel ymae gydag ymrwymiad i gyllido refeniw parhaus ar gyfer swydd Cydlynydd Prosiect Bioalrywiaeth, darparu gwasanaethau presennol o fewn y cyfleusterau, ond â gwaith cynnal a chadw cyfyng ac ychydig iawn neu ddim buddsoddiad cyfalaf pellach. |
| **Rhesymwaith** | • Defnyddio'r cyfleusterau presennol a darparu gwasanaethau cyfredol o fewn cyfyngiadau'r lle y gellir ei ddefnyddio<br>• Cyfyngu ar gostau cyfalaf a pheryglon i Gyngor Cymuned Mawr |
| **Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol** | • Cymuned leol uniongyrchol (yn bennaf o fewn 10 munud o amser gyrru) |

| Cryfderau / manteision/ buddion | Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau |
|---|---|
| • Cyfleusterau craidd eisoes ar y safle<br>• Cyfleusterau a gwasanaethau cyflenwol eisoes yn dynfa i'r gymuned<br>• Dim mwy o ymrwymiadau cyfalaf, gofynion / ymrwymiadau ariannu<br>• Dim adnodd ychwanegol ei angen heblaw'r hyn yr ymrwymwyd iddo eisoes<br>• Deellir rhaglenni / gwasanaethau cyflenwi i bob pwrpas, a chyllidebwyd ar eu cyfer<br>• Dull risg (ariannol) is ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr | • Mae'n ateb yn rhannol yr angen 'cymunedol' fel y nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon<br>• Bwlch sylweddol mewn darpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc<br>• Cyfyngiad ar y buddion iechyd, lles ac amgylcheddol a gyflawnwyd<br>• Byddant yn safleoedd a danddefnyddir<br>• Bydd effaith gyfunol cyfleusterau a gwasanaethau'n gyfyngedig o'i gymharu ag opsiynau eraill<br>• Bydd gwella bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol yn gyfyngedig<br>• Bydd cynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally yn parhau i fod yn broblem |

**Ffigwr 28: Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae**

**Opsiwn Dau: Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre**

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad cryno** | Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i Felindre. Gwella'r cyfleusterau presennol, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc, dod â llwybr a choedwig Ffordd Sally yn ôl i ddefnydd a diogelu mynediad y gymuned ehangach i'r caeau chwarae. |
| **Rhesymwaith** | • Datblygu ymhellach a gwireddu manteision cyfleusterau ac adnoddau cyflenwol ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr<br>• Diwallu angen y 'gymuned'<br>• Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal<br>• Dod â llwybr a choedwig Ffordd Sally yn ôl i ddefnydd |
| **Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol** | • Y gymuned leol (amserau gyrru 10 munud ac 20 munud) |

| | |
|---|---|
| | • Ymweliadau dysgu / addysg lleol<br>• Marchnad ymwelwyr – ymweld â ffrindiau a pherthnasau (VFR), diddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau agos i ardaloedd cyfagos. |
| **Cryfderau / manteision/ buddion** | **Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau** |
| • Cyfle i ddatblygu ymhellach adnodd cymdeithasol a hamdden sy'n hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr<br>• Diwallu angen 'cymunedol' fel y nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon<br>• Darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol<br>• Gall cynigion wella gradd isel yr ardal o ran 'Mynediad i Wasanaethau' (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)<br>• Mae'n mynd i'r afael â'r bwlch mewn darpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc yn enwedig maes chwarae i blant<br>• Mae'ng wella cynnal a chaddw llwybr, coedwig a chynefinoedd Ffordd Sally i greu pwyntiau diddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth<br>• Cysylltu'r cynigion â Llwybr Treftdaeth Mawr (dolen Cronfa Ddŵr Lliw Isaf i Felindre) ar gyfer apêl ehangach<br>• Gall gyd-fynd â Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ledaenu buddion twristiaeth i wardiau gogleddol | • Ymagwedd risg uwch (ariannol) ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr, sydd angen cyllid cyfalaf<br>• Costau cynnal a chadw a gofynion adnoddau uwch<br>• Rhai cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu refeniw ychwanegol ond mae'n debygol o gael ei gyfyngu i logi lle a mynychu digwyddiadau / dosbarthiadau penodol. |

**Ffigwr 29: Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre**

**Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr**

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad cryno** | Ymestyn gwella'r cyfleusterau i apelio'n fwy at y farchnad ymwelwyr, gan roi ffocws pellach a mwy amlwg ar y rôl y gall y caeau chwarae, Ffordd Sally a'r goedwig eu chwarae law yn llaw ag atyniadau cyfagos i ymwelwyr. |
| **Rhesymwaith** | • Mwy o apêl at y farchnad ymwelwyr |
| **Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol** | • Y gymuned leol (amserau gyrru 10 munud ac 20 munud)<br>• Aelodau sefydliadau partner<br>• Ymweliadau dysgu / addysg lleol<br>• Marchnad ymwelwyr – ymweld â ffrindiau a pherthnasau (VFR), diddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau agos i ardaloedd cyfagos. |
| **Cryfderau / manteision/ buddion** | **Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau** |
| • Cysylltu cynigion yn fwy penodol â Llwybr Treftadaeth Mawr (dolen Cronfa Ddŵr Lliw Isaf i Felindre) ar gyfer apêl ehangach<br>• Yn gallu cyd-fynd â Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ledaenu buddion twristiaeth i wardiau gogleddol<br>• Potensial i gael apêl ehangach a denu mwy o ymwelwyr | • Ymagwedd risg uwch (ariannol) ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr, sydd angen cyllid cyfalaf<br>• Costau cynnal a chadw uwch a gofynion adnoddau<br>• Cyfyng yw'r cyfle i gynhyrchu refeniw ychwanegol y tu hwnt i opsiwn 2<br>• Mae lefel yr apêl a'r tebygolrwydd o ddenu ymwelwyr ychwanegol i'r rhai a nodir yn opsiwn 2 yn amheus. |

**Ffigwr 30: Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr**

## 5.5. Gwerthuso'r opsiynau

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre:

| | |
|---|---|
| **Ystyriaethau'r safle ac amgylcheddol** | |
| Cymhwysiad / integreiddio'r safle ffisegol (o fewn daliad tir presennol) | • Pa mor dda mae'r opsiwn yn cymhwyso o ran gofynion lleoliad / defnydd ehangach o'r lle? |
| Effaith amgylcheddol | • Effaith amgylcheddol bosibl o ran cynaliadwyedd, gwastraff, llygredd ac addasrwydd y defnydd arfaethedig ar gyfer y dirwedd a'r lleoliad<br>• Budd ychwanegol / gwelliannau amgylcheddol |
| **Ystyriaethau'r farchnad** | |
| Apêl / cymhwysiad y farchnad | • Potensial y ymgysylltu â'r farchnad leol (gan gynnwys defnydd gan grwpiau) |
| Cynhyrchu ymweliadau o blith marchnad ehangach | • Cynhyrchu ymweliadau o blith marchnad dwristiaeth ehangach |
| **Angen cyfalaf a chyflenwi'r prosiect** | |
| Costau cyfalaf arfaethedig | • Tybiaethau costau arfaethedig uchel |
| Cyflawniad ymarferol prosiect | • Pa mor hawdd yw cyflawni'r prosiect, gan gynnwys proses ddatblygu |
| Risg datblygu | • Lefel y risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r opsiwn - risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â bwrw ymlaen â'r opsiwn arfaethedig gan gynnwys sicrhau cyllid a marchnata'r cynnig (Uchel, Canolig, Isel, Dim risg) |
| **Gweithredol ac ariannol** | |
| Cymhlethdod gweithredu | • Cymhlethdod i'w reoli yn ystod y cyfnod gweithredu |

| | |
|---|---|
| Cynhyrchu refeniw | • A oes gan yr opsiwn y gallu i gynhyrchu refeniw? |
| Costau gweithredu | • Lefel y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn o ran rheoli cyfleusterau a gwasanaethau |
| **Effeithiau** | |
| Manteision cymdeithasol a llesiant | • Gallu cynhyrchu cyfleoedd cymdeithasol a llesiant ar gyfer y gymuned leol ac aelodau sefydliadau partner |

**Ffigwr 31: Meini prawf gwerthuso opsiynau**

Sgoriwyd y meini prawf ar gyfer pob opsiwn – yn amrywio o 1 (isaf) i 5 (uchaf) yn dibynnu i ba raddau roedd pob un yn cael ei fodloni. Roedd gan bob maen prawf bwysoliad sy'n cynrychioli lefel pwysigrwydd o gymharu â'i gilydd. Amrywiai hyn o 1.0 i 2.75. Lluoswyd sgôr pob maen prawf â'r pwysoliad i roi sgôr wedi'i bwysoli. Cyfrifwyd sgoriau a sgoriau pwysol ar gyfer pob opsiwn. Ceir cyfanswm sgôr uchaf o 55 a chyfanswm sgôr pwysol o 100.

| **Meini Prawf** | | **Opsiynau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pwysoli** | **Opsiwn Un: parhau fel y mae** | | **Opsiwn Dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre** | | **Opsiwn Tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr** | |
| | | Sgôr | Sgôr wedi'i bwysoli | Sgôr | Sgôr wedi'i bwysoli | Sgôr | Sgôr wedi'i bwysoli |
| **Ystyriaethau'r safle ac amgylcheddol** | | | | | | | |
| Addasrwydd ffisegol y safle / integreiddiad (o fewn daliad tir presennol) | 1.5x | 2 | 3 | 5 | 7.5 | 4 | 6 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Effaith amgylcheddol | 2.0x | 1 | 2 | 4 | 8 | 3 | 6 |
| **Ystyriaethau'r farchnad** | | | | | | | |
| Apêl / addasrwydd y farchnad | 2.75x | 1 | 2.75 | 5 | 13.75 | 1 | 2.75 |
| Cynhyrchu ymweliadau o'r farchnad ehangach | 1.0x | 1 | 1 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Gofynion cyfalaf a chflawni'r prosiect** | | | | | | | |
| Costau cyfalaf a awgrymir | 2.0x | 4 | 8 | 3 | 6 | 2 | 4 |
| Cyflawniad ymarferol prosiect | 1.5x | 4 | 6 | 4 | 6 | 2 | 3 |
| Risg datblygu | 2.0x | 5 | 10 | 3 | 6 | 2 | 4 |
| **Gweithredol ac ariannol** | | | | | | | |
| Cymhlethdod gweithredu | 1.5x | 5 | 7.5 | 3 | 4.5 | 2 | 3 |
| Cynhyrchu refeniw | 1.0x | 2 | 2 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Costau gweithredu | 2.0x | 4 | 8 | 3 | 6 | 2 | 4 |
| **Effeithiau** | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Manteision cymdeithassol a llesiant | 2.75x | 2 | 5.5 | 5 | 13.75 | 4 | 11 |
| Sgôr | 55 | 31 | | 43 | | 33 | |
| Cyfanswm Sgôr wedi'i bwysoli | 100 | | 55.75 | | 79.50 | | 60.00 |

**Ffigwr 32: Sgorio a chymharu gwerthuso opsiynau**

Yr opsiwn a gafodd y sgôr uchaf o gryn dipyn yw **Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i Felindre** gyda sgôr wedi'i phwysoli o 79.50. Mae'r opsiwn hwn yn diwallu angen 'cymunedol' yn llawn fel y'i nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon, mae'n darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol, yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc yn enwedig maes chwarae plant, yn gwella'r gwaith o gynnal a chadw llwybr, coedwig a chynefinoedd Ffordd Sally i greu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth, a gall y cynigion wella safle isel 'Mynediad at wasanaethau' yr ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru). Y ffactor risg fwyaf yw'r angen i Gyngor Cymuned Mawr a phartneriaid sicrhau cyllid cyfalaf i weithredu cynigion.

**Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr** yw'r sgôr pwysol ail uchaf, sef 60.00. Mae'r opsiwn hwn yn ehangu'r gwelliannau i gyfleusterau i fod yn fwy deniadol i'r farchnad ymwelwyr; gyda mwy o ffocws ar ba rôl y gall y caeau chwarae, Ffordd Sally a'r goedwig ei chwarae ochr yn ochr ag atyniadau ymwelwyr cyfagos. Mae lefel o ansicrwydd ynghylch ffit / integreiddio, cyflawni / datblygu, costau cyfalaf uwch a chydbwyso gofynion cymunedau lleol yn erbyn apêl ehangach y farchnad ymwelwyr sydd wedi arwain at gymhwyso sgorau is i'r meini prawf hyn.

Gellid ystyried yr opsiwn hwn fel parhad o opsiwn 2 yn y dyfodol unwaith y bydd y cynigion a ffefrir wedi'u cyflawni a bod dealltwriaeth well yn dod i'r amlwg o ran faint o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol sydd ar gael.

Yr opsiwn a sgoriodd isaf ar 55.75 yw **Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae**. Dyma'r opsiwn sy'n peri'r risg leiaf o ran costau cyfalaf a gweithredol ond mae'n sgorio'n isel o ran ffit ffisegol y safle / integreiddio, effaith amgylcheddol, apêl y farchnad / ffit yn y farchnad a buddion cymdeithasol a llesiant gan na fydd yn diwallu angen 'cymunedol' yn llawn fel y nodir gan partneriaid, yr ymgynghoriad a'r ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon, ni fydd yn mynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc nac yn dod â llwybr a choedwig Ffordd Sally yn ôl i'w defnyddio.

# 6. Cyflenwi, cyllid ac ariannu

## 6.1. Dull a llywodraethiant cyflenwi

Byddai Cyngor Cymuned Mawr yn arwain y camau datblygu gan dynnu ar gefnogaeth partneriaid ac arbenigedd yn ôl yr angen.

Mae ardal yr astudiaeth yn eiddo i Gyngor Cymuned Mawr gan gynnwys llwybr a choedwig Ffordd Sally. Byddai angen ceisio cytundebau a chaniatâd i gysylltu unrhyw un o’r cynigion, fel Ffordd Sally a chaeau chwarae, â thirfeddianwyr trydydd parti cyfagos.

Mae gan Gyngor Cymuned Mawr hanes llwyddiannus o sicrhau arian, darparu prosiectau a gwasanaethau. Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Grantiau sy'n gyfrifol am sicrhau arian grant ar gyfer cynlluniau'r cyngor cymuned i wella'r ardal a gwasanaethau i gymuned Mawr yn ogystal â rheoli prosiectau a gweinyddu dyfarniadau grantiau.

Mae'r cyngor cymuned wedi ymrwymo i roi cyllid refeniw parhaus i dalu am rôl Cydlynydd Prosiect Bioamrywiaeth. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am ddau safle bioamrywiaeth Gardd Gymunedol Craig Cefn Parc a Chaeau Garnswllt. Mae lle i'r rôl hon gefnogi cyflwyno agweddau ar y rhaglen ar gyfer Felindre. Yn benodol, clirio ac ailddatblygu llwybr Ffordd Sally i’w ddefnyddio unwaith eto a rhaglen bioamrywiaeth / amgylcheddol yn y goedwig. Gallai hyn roi cyfle i ddatblygu rhaglen wirfoddoli; gan hyrwyddo ffyrdd i bobl leol gymryd rhan mewn datblygu a chynnal a chadw cyfleusterau a gwasanaethau ymhellach.

## 6.2. Pennu gofynion ariannol

Mae Cyngor Cymuned Mawr wedi ymrwymo i roi cyllid refeniw parhaus i dalu am rôl Swyddog Grantiau a Chydlynydd y Prosiect Bioamrywiaeth. Mae'r cyngor hefyd yn elwa o fewnbwn sylweddol o amser ac adnoddau ar sail wirfoddol gan y gymuned leol ar ffurf cynghorwyr lleol ac aelodau Pwyllgor Neuadd Les Felindre.

Y ffactor risg unigol fwyaf o ran gallu cyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol.

**Parc / maes chwarae plant**

Yn ddiweddar chwiliodd Cyngor Cymuned Gorlas, yn Llangynnwr (Caerfyrddin), am gyflenwyr a gosodwyr ar gyfer offer chwarae. Mae rhychwant y cytundeb ar gyfer darparu offer chwarae newydd ym Mharc Hamdden Drefach ynghyd â chyflenwi, paratoi a gosod arwynebau diogelwch newydd a pharatoi ac atgyweirio arwynebau a sail diogelwch presennol. Sicrhawyd bod uchafswm cyllideb o **£50,000 + TAW** ar gael. Nid yw hyn yn cynnwys ffensys, yr awgrymodd ymholiadau mewn lleoliadau eraill y byddent **tua £15,000-20,000 + TAW.**

**Meysydd chwarae**

Bydd angen i Gyngor Cymuned Mawr ystyried unrhyw ddatblygiad pellach y tu hwnt i leoli’r parc plant / maes chwarae.

**Llwybr a choedwig Ffordd Sally**

Drwy ddefnyddio adnoddau refeniw'r cyngor a rhaglen wirfoddoli (pe bai'n cael ei gymeradwyo) gellid cyflawni'r gwaith o glirio ac ailddatblygu'r llwybr i raddau helaeth. Bydd angen darparu ar gyfer costau deunyddiau a chyfarpar. Bydd angen i Gyngor Cymuned Mawr gyfrifo hyn. Fel canllaw darparwyd costau cyflenwi ac adeiladu ar gyfer ardal arall yn Abertawe:

- Clirio llystyfiant i ffurfio llwybrau a mannau agored **£5,800**
- Gosod llwybrau gydag ymylon pren wedi'i drin, rhywfaint o darmac **£34,500**

**Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA)**

Glanhau arwynebau a gwaith clytio / gwella ynghyd ag adnewyddu llifoleuadau i annog mwy o ddefnydd. Costau i'w pennu.

**Peiriant gwerthu / marchnad ffermwyr**

Amlygwyd sawl math o beiriannau a phrisiau mewn astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan *The means* yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer menter peiriannau gwerthu canol tref a lleoliad twristiaeth. Bydd angen i Gyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre benderfynu ar briodoldeb y rhain yn ôl y math o gynnyrch a fydd ar gael a pha mor ddiogel fydd y lleoliad. Gellir cynnal marchnad ffermwyr reolaidd naill ai fel ychwanegiad at y peiriant gwerthu neu fel dewis arall os ystyrir bod y costau cyfalaf yn afresymol.

- **Peiriant gwerthu byrbrydau / diodydd traddodiadol**

Mae Automatic Merchandising Wales Ltd, a leolir yng Nghastell-nedd, yn cynnig peiriant tebyg ar brydles gyda **chost rhentu o £70 yr wythnos am o leiaf tair blynedd**. Byddai cost galw allan 24 awr y flwyddyn hefyd o £120. Gellir prynu peiriant gwerthu fel hwn hefyd ar eBay am unrhyw beth rhwng **£1000 a £3000**.

- **Peiriant carwsél cynnyrch ffres**

Mae Admiral Vending Systems, a leolir yn Abertawe, yn cynnig y strwythur prisio canlynol sy'n cynnwys system dalu ddigyswllt, mecanwaith darnau arian, dosbarthu, gosod, a hyfforddiant: **Prynu'n Llwyr £9,460; Rhent prydles yr wythnos / 5 mlynedd £47.15; Rhent prydles yr wythnos / 3 blynedd £72.04.** Byddai cost yswiriant hefyd, VendProtect, sef £6.50 yr wythnos, sy'n cynnwys methiannau mecanyddol ac ymweliadau peirianwyr.

Mae Automatic Merchandising Wales Ltd yn cynnig peiriant tebyg **ar sail les gyda chost rhentu o £70 yr wythnos am o leiaf tair blynedd**. Byddai cost galw allan 24 awr y flwyddyn hefyd o £120.

Gellir prynu peiriant gwerthu carwsél fel hwn unwaith ac am byth ar eBay am unrhyw beth rhwng £2000 a £3000.

- **Peiriant gwerthu locer**

Uned arbenigol, gan JSR Services Ltd, sy'n beiriannau 'wedi'u teilwra sy'n cysylltu paneli neu loceri o wahanol faint â'i gilydd. Gellir cadw loceri'n oer neu gynnal tymheredd yr ystafell. **Byddai uned sy'n cynnwys 25 o loceri gyda sgrin gyffwrdd yn costio rhwng £12,000 a £15,000, sy'n gostwng i £8,000 heb sgrin gyffwrdd.**

- **Peiriant gwerthu llaeth**

Cynyddodd y rhain mewn poblogrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac fel arfer y ffermwr llaeth sy'n gwneud y buddsoddiad ac wedyn yn stocio ei gynnyrch ei hun. Gall y peiriannau hyn gostio rhwng **£20,000 a £70,000** yn dibynnu ar y model, ac a oes angen i'r ffermwr fuddsoddi mewn pasteurydd hefyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys Y Stand Laeth yn Nantgaredig.

Efallai y bydd angen rhyw fath o gysgodfan / uned gartrefu neu adeilad awyr agored hefyd. Byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer strwythur parhaol y tu allan.

- **Marchnad ffermwyr**

Mae **gasebo / stondinau yn costio rhwng £375-450 + TAW** am un strwythur 3m x 3m gyda 3 phanel ochr finyl, to a chas cario. Mae **pwysau arbennig i gadw'r strwythur yn ddiogel yn costio £100** am bob gasebo (4 i bob strwythur @ £25 y pwysau). **Pe bai angen argraffu finyl, i ychwanegu logo, mae hyn tua £100 y panel.** Gall cyfluniad y stondinau hyn ganiatáu hyd at ddau fasnachwr fesul gazebo os yw'r gofynion gofod wedi'u cyfyngu i fwrdd arddangos ar gyfer pob set o gynnyrch.

Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i gytuno ar y lleoliad a ffefrir. Amlygwyd dau opsiwn: Rhan o'r maes parcio cefn; y MUGA (gyda chyfyngiadau i sicrhau nad yw'r arwyneb yn cael ei ddifrodi a dim ond ar adegau pan na fyddai hyn yn effeithio ar ei ddefnydd ar gyfer chwaraeon).

**Neuadd Les Felindre**

Costau adnewyddu i'w pennu gan Gyngor Cymuned Mawr i wneud defnydd llawn o'r adeilad a darparu gwasanaethau ychwanegol.

## 6.3. Datblygu strategaeth ariannol

Bydd angen i Gyngor Cymuned Mawr roi Strategaeth Gyllido amlinellol ar waith i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl er mwyn cyflawni'r opsiwn a ffefrir: 'Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre'. Bydd y Swyddog Grantiau'n chwarae rhan allweddol wrth amlygu, gwneud ceisiadau am a rheoli'r arian ynghyd â chefnogaeth gan swyddogion Cyngor Abertawe.

Mae rhaglen Leader wedi buddsoddi i dyfu a datblygu'r cynnyrch twristiaeth, gan gynnwys Cynllun Twf Llety Gwledig y Cynllun Datblygu Gwledig, a sicrhaodd fuddsoddiad i wella'r ddarpariaeth llety yn Abertawe wledig. Wrth i raglen Leader ddod i ben, bydd **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) a** gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn gyllidwr sylweddol ar draws y rhanbarth, ac sy'n gosod Cyngor Abertawe fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, yn sicrhau bod nifer o gronfeydd ar gael gan gynnwys y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy a'r Gronfa Arloesi Gwledig.

Mae'r UKSPF yn rhan o ymrwymiad llywodraeth y DU i lefelu pob rhan o'r DU drwy gyflawni pob un o'r amcanion 'codi'r gwastad':

- Hybu cynhyrchiant, cyflog, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent ar ei hôl hi.

- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent ar eu gwannaf.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent wedi'u colli
- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y mannau hynny sydd heb asiantaeth leol.

Dyddiad gorffen cyflwyno'r rhaglen yw 31 Rhagfyr 2024. Dyrannwyd £132 miliwn i Dde-orllewin Cymru a disgwylir i Abertawe dderbyn £34.4 miliwn ohono. Bydd cyfnod ymgeisio cychwynnol yn cau ar 29 Mawrth 2023 a disgwylir ail rownd ym mis Mehefin 2023.

Mae Abertawe'n gweithredu chwe phrosiect 'angor' ar themâu allweddol y rhaglen sy'n cyd-fynd â strategaethau corfforaethol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o fesurau cymorth, gweithgareddau a gomisiynir a chynlluniau grant trydydd parti. Dylid ceisio rhagor o wybodaeth gan Gyngor Abertawe, yn enwedig ynghylch:

- **Angor Cefnogi Cymunedau**: Arian grant ar gyfer prosiectau cymunedol / trydydd sector. Mae amrywiaeth o grantiau ar gael i gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol i wella mannau, cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol lleol. Bydd grantiau'n cefnogi datblygu cyfalaf cymdeithasol, datblygu'n seiliedig ar asedau a gwirfoddoli effeithiol.
- **Angor Trawsnewid Lleoedd y Sir**: Gwelliannau ar raddfa fach i ganol trefi a phentrefi – seilwaith glasu / glas dan arweiniad yr awdurdod lleol a gwelliannau i fannau cyhoeddus mewn trefi a phentrefi yn y sir.
- **Angor Gwledig**: Prosiect sy'n olynu'r Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n darparu cyllid ar gyfer datblygu cymunedau gwledig, newid hinsawdd a gweithgareddau sero net a gweithgareddau busnes gwledig.

Mae **Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)** yn gronfa gyfalaf i gyflawni gwelliannau isadeiledd twristiaeth ar raddfa fach ledled Cymru. Mae'r grant ar gael hyd at £300,000 gydag uchafswm cyfradd ymyrraeth o 80%. Nid oes isafswm grant. Mae'r rownd bresennol o gyllid yn agored i Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer Datgan Diddordeb yw 16 Mawrth 2023. Rhaid gwario a hawlio'r gwariant llawn erbyn 31 Mawrth 2025. Dylai partneriaid holi am gylchoedd ariannu'r dyfodol.

Amcanion y gronfa yw:

- Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith bach sydd o fudd i gymunedau ac ymwelwyr mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig.
- Datblygu prosiectau isadeiledd o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r cynnig twristiaeth ehangach mewn cyrchfannau gan roi profiad cofiadwy i ymwelwyr drwy gydol eu harhosiad.
- Cefnogi cyfleusterau sylfaenol i aros ar agor drwy'r flwyddyn a darparu ar gyfer ymwelwyr gyda'r nos tan yn hwyr.

Ar gyfer y rownd ariannu hon, mae'r flaenoriaeth yn canolbwyntio ar 4 maes allweddol:

- Lliniaru pwyntiau pwysau. Dod o hyd i atebion isadeiledd i oresgyn pwysau ar ardaloedd o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

- Cyrchfannau amgylcheddol gynaliadwy. Datblygu isadeiledd newydd neu drawsnewid isadeiledd presennol i wneud y gyrchfan yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, a thrwy hynny helpu i leihau'r ôl troed carbon.
- Twristiaeth Gynhwysol / Hygyrchedd. Cefnogi prosiectau sy'n symud rhwystrau ac atalfeydd o fewn cyrchfan a gwella mynediad pawb i gyfleusterau.
- Gwella cynnyrch cenedlaethol, er enghraifft, prosiectau sy'n gwella ac yn codi proffil Llwybr Arfordir Cymru.

Yr hyn sy'n bwysig i Felindre o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth a lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig. Cafodd **Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe** ei sicrhau'n ddiweddar mewn ardaloedd cyfagos.

Gellir ymgeisio i **Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair** ar gyfer ariannu'n rhannol gostau adnewyddu'r Neuadd les a / neu'r parc / offer meysydd chwarae / ffensio fel y gwnaeth Cyngor Cymuned Mawr yn barod ar gyfer Neuadd Les Garnswllt a Gardd Gymunedol a chaeau chwarae Craig Cefn Parc.

Mae **Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru** yn enghraifft arall o grantiau a sicrhawyd yn llwyddiannus gan y Cyngor Cymuned.

# 7. Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol

## 7.1. Casgliadau cryno

Y cysyniad, a ddatblygwyd gyda Chyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre, oedd archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau o gwmpas Neuadd Les Felindre a'r caeau cyfagos fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol. Cafodd nifer o brosiectau'u hystyried eisoes gan y cyngor a'r pwyllgor, sy'n gynrychiolwyr lleol ac yn breswylwyr. Llywiwyd y rhain gan eu gwybodaeth o'r ardal a thrafodaethau gyda'r gymuned ehangach.

Cynhaliwyd sesiynau pellach, sesiwn picio i mewn, ac arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon.

Roedd y prosiectau a amlygwyd ar gyfer eu datblygu ymhellach i fod yn gynnig cyflenwol a chydlynol yn cynnwys:

- Neuadd Les Felindre – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Caeau chwarae – cynnig ychwanegol
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – defnydd amgen
- Llwybr a choedwig Ffordd Sally – ailsefydlu a gweithgareddau ysgol y goedwig
- Ardal chwarae i blant – ychwanegiad newydd
- Marchnad ffermwyr / peiriant gwerthu

Mae'r holl ardal astudio'n eiddo i Gyngor Cymuned Mawr ac mae'n elwa o fod y cyfleisterau / cynigion yn agos at ei gilydd ac yn hawdd symud rhwng pob un ohonynt.

**Mynegwyd diddordeb gwirioneddol o du'r gymuned am yr hyn sydd angen ei gael yn yr ardal, a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn eu chwarae.**

Cafodd problemau, heriau a chyfleoedd meintiol ac ansoddol allweddol sy'n codi o'r proffil economaidd-gymdeithasol, ymchwil i'r llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid prosiect a phobl leol eu dehongli mewn dadansoddiad SWOT. Mae hyn wedi llywio cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a chymharu opsiynau datblygu – gan alluogi cymharu rhesymeg, nodau a chanlyniadau gweithredol / cyflawni er mwyn cynyddu cryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a lliniaru effaith bygythiadau.

**Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle'n dangos cefnogaeth gref ar gyfer datblygu'r adnodd cymunedol ymhellach i ddiwallu'n llawnach anghenion 'cymunedol', mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a gwella'r gwaith o gynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally.**

**Prif grwpiau defnyddwyr** y datblygiadau newydd fydd:

**<u>Cynradd</u>**

**Marchnad breswyl leol**

- Yn bennaf o fewn amser gyrru o 10 munud. Mae'n debygol mai'r farchnad / gynulleidfa allweddol fydd trawstoriad o'r gymuned leol; teuluoedd, arddegwyr, pobl wedi ymddeol, cerddwyr hamdden, ungiolion ynysig a phobl ag anawsterau dysgu
- Byddai'r dalgylch hefyd yn cynnwys pobl o fewn amser gyrru o 20 munud, yn enwedig y rheiny i'r gogledd o'r M4 ac ardaloedd cyfagos i Felindre.

**Ymweliadau dysgu / addysgol lleol**

- Ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol ynghylch bioamrywiaeth, gweithgareddau amgylcheddol a choed
- Ymweliadau ysgol a grwpiau diddordeb arbenigol.

**<u>Cynulleidfaoedd eilaidd</u>**

**Y farchnad ymwelwyr**

- Gall y farchnad cyfeillion a pherthnasau sy'n ymweld (VFR) fod yn rhan gymedrol o'r cymysgedd ymwelwyr.
- Cyfleoedd i gysylltu ag atyniadau cyfagos megis Cronfa Ddŵr Lliw Isaf drwy gyfrwng Llwybr Treftadaeth Mawr. Byddai hyn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig o ran maint ac yn dibynnu ar boblogrwydd y gronfa a diddordeb mewn archwilio ardaloedd cyfagos e.e. apelio at ddiddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau cyfagos.

Bu sawl **egwyddor datblygu** yn sail i'r broses o gynhyrchu opsiynau a'r broses arfarnu.

**Adnodd cymunedol sy'n darparu cyfleoedd cymdeithasol a hamdden ar gyfer y gymuned leol yn bennaf a gyda rhywfaint o apêl i'r farchnad ymwelwyr:**

- **Datblygu ymhellach yr adnodd cymunedol i ateb angen 'cymunedol' yn llawn a bod yn hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr**
- **Darparu ar gyfer demograffeg newidiol yn yr ardal**
- **Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc**
- **Gwella cynnal a chadw llwybr a choedwig Ffordd Sally, gan eu dychwelyd i ddefnydd cynaliadwy**

Cymharwyd tair lefel o opsiynau ymyrraeth / datblygu o ran maint a ffurf:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre
- Opsiwn tri: Adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig gydag apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Mawr a Phwyllgor Neuadd Les Felindre.

Yr opsiwn a sgoriodd uchaf o gryn dipyn oedd **Opsiwn dau: Gwella cyfleusterau fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre** gyda sgôr wedi'i phwysoli o 79.50. Mae'r opsiwn hwn yn diwallu angen 'cymunedol' yn llawn, fel y'i nodwyd gan bartneriaid, yr ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yr astudiaeth hon, mae'n gwireddu dyheadau partneriaid, yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol, yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc, yn enwedig y maes chwarae i blant, mae'n gwella cynnal a chadw llwybr Ffordd Sally, y goedwig a'r cynefinoedd i greu pwyntiau diddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth a gall cynigion wella statws isel 'Mynediad i wasanaethau' (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

Er bod **pob cynnig yn gallu sefyll ar ei ben ei hun a bod iddo fuddion i ddemograffeg benodol y gymuned, gwelir yr effaith fwyaf trwy wireddu pecyn cyflenwol o gynigion sy'n defnyddio adnoddau'r gymuned (cyfleusterau a gwasanaethau) yn llawn ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.**

**Cyngor Cymuned Mawr fyddai'r arweinydd naturiol ar gyfer y camau datblygu** gan dynnu ar gefnogaeth ac arbenigedd partneriaid yn ôl y galw.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyfrannu cyllid refeniw parhaus ar gyfer Swyddog Grantiau a Chydlynydd Prosiect Bioamrywiaeth. Mae'r cyngor hefyd yn elwa o fewnbwn sylweddol o ran amser ac adnoddau ar sail wirfoddol oddi wrth y gymuned leol, ar ffurf cynghorwyr lleol a Phwyllgor Neuadd Les Felindre.

Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus o sicrhau cyllid, cyflenwi prosiectau a gwasanaethau, ac ef sy'n berchen ar yr ardal astudio / cyfleusterau, cac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau presennol.

Y **ffactor risg unigol mwyaf o ran gallu cyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol.** Bydd angen cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir.

Mae sawl ffynhonnell ariannu wedi'u hamlygu ar gyfer ymchwiliad pellach:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) – Cyngor Abertawe yw'r awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru
- Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)
- Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe
- Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
- Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

## 7.2. Argymhellion allweddol

Drwy adeiladu ar y dadansoddiad ac adolygu’r egwyddorion datblygu a’r dewisiadau datblygu, daethpwyd at bedwar argymhelliad.

**Argymhelliad 1** – Dylid mynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrir: ‘Gwella cyfleusterau fel **adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig ar gyfer Felindre’.**

**Argymhelliad 2** – Dylid datblygu cynigion a'u cyflwyno fel **pecyn cydlynol a chyflenwol sy'n gwneud defnydd llawn o'r ystod o gyfleusterau ac adnoddau ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.**

**Argymhelliad 3** – Cyngor Cymuned Mawr **ddylai fod yn arweinwyr ar gyfer y cyfnodau datblygu gan dynnu** ar gefnogaeth ac arbenigedd partneriaid eraill yn ôl yr angen.Community Council should be the lead for the development phases drawing upon partner support and expertise as necessary.

**Argymhelliad 4** – Dylid cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Dylid ymchwilio ymhellach i sawl ffynhonnell ariannu gyda golwg ar gyflwyno ceisiadau am yr adnoddau cyfalaf angenrheidiol.

# Atodiad 1: Taflen hysbysu'r sesiwn picio i mewn

**Felindre Hall and adjacent fields – an important social and recreational resource**

**We want to hear your views**





Mawr Community Council and Felindre Welfare Hall Committee are exploring opportunities to expand upon facilities and services around Felindre Welfare Hall and adjacent fields as an important social and recreational resource for local communities. We want to ensure that proposals respond to the needs of residents and visitors. We are keen to hear your views and would be grateful if you could answer a few questions to help shape the future of this project.

**We are holding a drop-in session on Saturday 5th November 10.00-11.30am at Felindre Welfare Hall to discuss the project. Refreshments will be provided.**

We have also produced a short questionnaire and would be grateful if you could complete this by the 27th November using the url or by scanning the QR code. Hard copies of the questionnaire are also available from the Community Council.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/FCZC65W

If you have any questions about this project, please email james.thomas@themeans.co.uk

This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government and supported by Swansea Rural Development Partnership at Swansea Council.

Cyngor Cymuned Mawr Community Council

Cyngor Abertawe Swansea Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cedwir pob hawl ©

**Swyddfa Cymru**

**Unit 2, 21-25 West End, Llanelli, Sir Gâr / Carmarthenshire, SA15 3DN**

**Phone / Ffôn: +44 (0)1554 780170**

**Swyddfa Llundain**

**28 Marshalsea Road, Llundain SE1 1HF**

**Phone / Ffôn: +44 (0)20 7403 4135**

**The means Limited. Swyddfa Gofrestredig**

**80-83 Long Lane, Llundain EC1A 9ET**

**Gwefan:** ***www.themeans.co.uk***